

Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd Cydweli

Adroddiad ar ddigwyddiadau llifogydd ar 4 ac 20 Hydref 2021 yng Nghlos yr Helyg, Parc Pendre, Llys Gwenllian, Heol y Fferi, Cae Ffynnon, Ger y Castell, Ger y Gwendraeth ac Ystad Ddiwydiannol Cydweli – fel sy'n ofynnol o dan adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Teitl y ddogfen	Adroddiad Ymchwilio i Llifogydd Cydweli
Dyddiad y ddogfen	Medi 2022
Awduron	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gwasanaeth cyfrifol	Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir, Gwasanaethau Gwasttraff ac Amgylcheddol
Adran	Yr Amgylchedd
Adolygu	Cath Abbott Peiriannydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymeradwyo	Ben Kathrens Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyhoeddwyd	

Hanes y Ddogfen

Diwygiad	Disgrifiad o'r pwrpas	Cynhyrchwyd	Gwiriwyd	Adolygwyd	Cymeradwywyd	Dyddiad
1.0	Casglu deunydd ymchwil	CA, ME, IJ ac SJ				
2.0	Fersiwn ddrafft i'w hadolygu	BK	BK	BK	BK	Ebrill 2022
3.0	Drafft terfynol	BK, CA, SP	CA	BK	BK	10/6/2022
4.0	Drafft terfynol ar gyfer y Cyfarwyddwr	BK	BK	AW	AW	17/7/2022
5.0	Drafft terfynol i'w ddosbarthu i Priffyrdd ac Eiddo	BK		SP, JJ, JM, JF, SW		10/8/2022
6.0	Drafft terfynol i'w ddosbarthu i DCWW a Pobl	BK		RD, WH		15/8/2022
6.0	Fersiwn Derfynol ar gyfer y TRhC / Bwrdd Gweithredol	BK	BK	AW	AW	12/9/2022
7.0	Fersiwn Derfynol i'w chyhoeddi	BK	AW	TRhC	TRhC	22/9/2022

Cynnwys

1.	Rhagarweiniad	8
1.1	Yr Adroddiad	8
1.2	Ffocws yr Adroddiad	9
2.	Y Digwyddiadau Llifogydd Dydd Llun 4 Hydref a Dydd Mercher 20 Hydref 2021.....	10
2.1	Cofnod o Ragolygon Llifogydd, Rhybuddion Tywydd a Data Glawiad	10
2.2	Dydd Llun 4 Hydref 2021 Cronoleg Tywydd	10
2.3	Dydd Mawrth 19 Hydref 2021	11
2.4	Data Glawiad Dydd Llun 4 Hydref 2021	12
2.5	Data Glawiad 20 Hydref 2021	13
3.	Yr Ymchwiliad Llifogydd – Clos yr Helyg a Pharc Pendre.....	15
3.1	Rhagarweiniad	15
3.2	Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021	15
3.3	Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle – Dydd Mercher 20 Hydref 2021	17
3.4	Hanes Llifogydd - Clos yr Helyg a Pharc Pendre.....	17
3.5	Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Clos yr Helyg a Pharc Pendre	19
3.6	Asesiad Canlyniadau Llifogydd Clos yr Helyg (ACLI) a gefnogodd y cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai Clos yr Helyg.	25
3.7	Canfyddiadau a Chasgliadau’r Ymchwiliad - Clos yr Helyg	27
4.	Yr Ymchwiliad Llifogydd – Llys Gwenllian.....	29
4.1	Rhagarweiniad	29
4.2	Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021	29
4.3	Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle – Dydd Mercher 20 Hydref 2021	29
4.4	Ymchwiliadau, Arsyllwadau ac Ymweliadau Safle Dilynol – Llys Gwenllian	30
4.5	Hanes Llifogydd (Llys Gwenllian)	31
4.6	Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Llys Gwenllian	32
4.7	Canfyddiadau a Chasgliadau’r Ymchwiliad – Llys Gwenllian	34
6.	Yr Ymchwiliad Llifogydd – Cae Ffynnon a Heol y Fferi.....	36

6.1	Rhagarweiniad	36
6.2	Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021	36
6.3	Data, Ymchwiliad ac Arsyllwadau Digwyddiadau Llifogydd - Dydd Mercher 20 Hydref 2021	38
6.4	Ymchwiliadau, Arsyllwadau ac Ymweliadau Safle Dilynol	39
6.5	Hanes Llifogydd (Cae Ffynnon a Heol y Fferi)	41
6.6	Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Cae Ffynnon a Heol y Fferi	42
6.7	Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Cae Ffynnon a Heol y Fferi	52
7.	Yr Ymchwiliad Llifogydd - Ger y Castell a Ger y Gwendraeth	54
7.1	Rhagarweiniad	54
7.2	Data Digwyddiadau Llifogydd - Dydd Llun 4 Hydref 2021	54
7.3	Data Digwyddiadau Llifogydd - 20 Hydref 2021	54
7.4	Ymchwiliadau, Arsyllwadau ac Ymweliadau Safle Dilynol	55
7.5	Hanes Llifogydd	56
7.6	Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Ger y Gwendraeth a Ger y Castell	57
7.7	Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Ger y Gwendraeth a Ger y Castell	60
8.	Yr Ymchwiliad Llifogydd - Ystad Ddiwydiannol Cydweli	62
8.1	Rhagarweiniad	62
8.2	Data Digwyddiadau Llifogydd – 4 Hydref 2021	62
8.3	Data Digwyddiadau Llifogydd – 20 Hydref 2021	62
8.4	Ymweliadau ac Arsyllwadau Safle Dilynol	63
8.5	Hanes Llifogydd	64
8.6	Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Ystad Ddiwydiannol Cydweli	65
8.7	Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Ystad Ddiwydiannol Cydweli	68
9.	Canfyddiadau Strategol yr Ymchwiliad	69
9.1	Canfyddiadau	69
10.	Camau Gweithredu o'r Ymchwiliad (x28)	71

Tabl Ffigur

Ffigur 1 - Cyfansymiau glawiad a gyhoeddwyd gan MetDesk yng Nghydweli ar gyfer pob awr ar 4 Hydref 2021 (mm).	12
Ffigur 2 - Cyfansymiau glawiad 24-awr cronol (mm) yn Sir Gaerfyrddin ar 4 Hydref 2021.	13
Ffigur 3 - Cyfansymiau glawiad a gofnodwyd yng Nghydweli ar gyfer pob awr ar 20 Hydref 2021 (mm).	13
Ffigur 4 - Cyfansymiau glawiad 24-awr cronol (mm) yn Sir Gaerfyrddin ar 20 Hydref 2021. ..	14
Ffigur 5 - Ardal ymchwilio llifogydd Clos yr Helyg a Pharc Pendre.....	15
Ffigur 6 - Ffotograffau o'r llifogydd yng Nghlos yr Helyg ar 4 Hydref 2021 (Gemma Wilby).	16
Ffigur 7- Ffynhonnell llifogydd mewn eiddo ar 4 Hydref 2021, a gofnodwyd gan drigolion CSC.	17
Ffigur 8 - Hanes llifogydd mewn eiddo yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.	18
Ffigur 9- Map o geuffos dŵr wyneb Parc Pendre	19
Ffigur 10 - Map o gwrs dŵr arferol Clos yr Helyg.	20
Ffigur 11 - Rhestr o ddiffygion a ganfuwyd yn arolwg CCTV 2019 o geuffos Parc Pendre.....	21
Ffigur 12 - Map o'r tir sy'n eiddo i CSC yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.	22
Ffigur 13 - Map o'r system draenio priffyrdd yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.	23
Ffigur 14 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd er 2015.....	24
Ffigur 15 - Map o'r cynllun draenio dŵr wyneb a gymeradwywyd ar gyfer Clos yr Helyg, Cydweli (Quantum, 2006).....	26
Ffigur 16 - Tabl o'r 8 cam i'w cymryd yng Nghlos yr Helyg gan CSC a Pobl.....	28
Ffigur 17 - Map o Lys Gwenllian, Cydweli.....	29
Ffigur 18 - Ffotograffau o'r ffynhonnau sy'n gollwng dŵr tuag at Lys Gwenllian.	31
Ffigur 19 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Llys Gwenllian.	33
Ffigur 20 - Tabl o'r camau i'w cymryd yn Llys Gwenllian gan CSC a Pobl.....	35
Ffigur 21 - Ardal ymchwilio llifogydd Cae Ffynnon a Heol y Fferi.....	36
Ffigur 22 - Ffotograffau o'r malurion a waredwyd ar ôl y digwyddiad llifogydd ar 4 Hydref 2021 yng Nghae Ffynnon.	37
Ffigur 23 - Ffotograffau o'r malurion a waredwyd ar ôl y digwyddiad llifogydd ar 4 Hydref 2021 ar Heol y Fferi.	38

Ffigur 24 - Llun o drigolion Cydweli yn dadflocio cwrs dŵr Cae Ffynnon i'r gogledd o Gae Ffynnon. Yn y llun, mae'r dŵr yn llifo lawr y llwybr cerdded, ac mae'r cwrs dŵr lle mae'r dynion yn sefyll.....	39
Ffigur 25 - Hanes llifogydd mewn eiddo yn Heol y Fferi a Stryd Newydd Cydweli.	41
Ffigur 26 - Map o'r cwrs dŵr cyffredin di-enw yng Nghae Ffynnon a Heol y Fferi. Labelwyd A.	42
Ffigur 27 - Hydroleg Dalgylchoedd Cae Ffynnon (Amey Consulting, Mawrth 2022).	43
Ffigur 28 - Darn preifat y cwrs dŵr a geuffoswyd yng Nghae Ffynnon Cydweli.	43
Ffigur 29 - Ffotograffau o ddarnau preifat cwrs dŵr yn 68 Heol y Fferi, Cydweli.....	44
Ffigur 30 - Ar y chwith, y sgrin brigau newydd fel y mae heddiw, ar y sgrin, yr hen sgrin a newidiwyd yn 2014.....	46
Ffigur 31 - Allbwn modelu hydrolog digwyddiad llifogydd 1 mewn 100 mlynedd (0.1% AEP) - yn dangos dim gorlwyth yn sgrin brigau Cae Ffynnon (Amey Consulting, Mawrth 2022).....	47
Ffigur 32 - Y gwaith cynnal a chadw rheolaidd a wneir yn sgrin brigau Cae Ffynnon.....	47
Ffigur 33 - Y darn o gwrs dŵr Cae Ffynnon sy'n eiddo i CSC.	48
Ffigur 34 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Cae Ffynnon a Heol y Fferi.....	50
Ffigur 35 - Tabl o'r 9 cam y mae angen eu cymryd yn Heol y Fferi a Chae Ffynnon.	53
Ffigur 36 - Ardal ymchwilio llifogydd Ger y Castell a Ger y Gwendraeth.	54
Ffigur 37 - Ffotograff o'r eiddo yn Ger y Gwendraeth a ddioddefodd lifogydd.....	55
Ffigur 38 - Ffotograff o 32 Ger y Castell a ddioddefodd lifogydd mewnol o'r cefn.	56
Ffigur 39 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.	58
Ffigur 40 - Map yn dangos yr eiddo sydd ym mherchnogaeth CSC (lliw glas) yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.....	60
Ffigur 41 - Tabl o'r camau y mae angen i'r ARhRau perthnasol eu cymryd yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.	61
Ffigur 42 - Ffotograffau o'r llifogydd yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli ar 20 Hydref 2021.....	63
Ffigur 43 - Mapiau o'r garthffos dŵr wyneb breifat yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli.	66
Ffigur 44 - Ystad Ddiwydiannol Cydweli a'r ardal a reolir gan Wasanaethau Eiddo CSC (dangosir mewn pinc).....	67
Ffigur 45 - Y camau y mae angen i Adran Ystadau CSC eu cymryd yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli.	68

1. Rhagarweiniad

1.1 Yr Adroddiad

- 1.1.1 Cynhaliwyd ymchwiliad gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sef yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) i ymateb i'r llifogydd a gafwyd yng Nghydweli ar 4 ac 20 Hydref 2021.
- 1.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymchwiliad ac mae'n cynnwys gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gyflawni'r gofynion statudol a osodwyd ar yr Awdurdod gan [Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#)
- 1.1.3 Mae [Rheoliadau Risg Llifogydd 2009](#) a [Deddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010](#) yn nodi mai CSC yw'r ALILIA yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd hyn nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau rheoli risg llifogydd ar y Cyngor. Yn benodol, mae [Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#) yn gosod dyletswydd ar CSC i gynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau llifogydd i ba raddau bynnag y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol.
- 1.1.4 Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi egluro mai digwyddiadau llifogydd arwyddocaol, sef y rhai y mae angen adroddiadau Adran 19 ffurfiol ar eu cyfer, yw'r rhai lle y mae 20 neu ragor o anheddau preswyl yn dioddef llifogydd mewnol.

Mae CSC yn barnu fod y digwyddiadau yn ystod mis Hydref 2021 yng Nghydweli yn ddigon difrifol a gall gadarnhau y dioddefodd mwy nag 20 o anheddau preswyl llifogydd mewnol yn ystod y digwyddiadau hynny.

1.2 Ffocws yr Adroddiad

1.2.1 Yn unol ag Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin, fel ALLIA, i ba raddau bynnag y mae'n barnu sy'n angenrheidiol neu'n briodol, yn ymchwilio -

- Pa Awdurdodau Rheoli Risg (ARhR) sy'n meddu ar swyddogaethau rheoli risg perthnasol, ac
- A yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hynny wrth ymateb i'r llifogydd.

1.2.2 Nid yw'r Adroddiad yn cynnig argymhellion a chasgliadau pendant ynghylch cyflawni gwaith cyfalaf allai fod yn briodol ar gyfer lliniaru llifogydd, ond bydd yr Adroddiad yn cyflwyno cyfres o gamau fydd yn cyfrannu at y drafodaeth ynghylch hyfywedd ac ymarferoldeb gwaith cyfalaf i liniaru llifogydd yn y dyfodol lle'n briodol.

1.2.3 Hefyd, mae'r Adroddiad yn amlinellu'r angen i fapio a chael gwell rheolaeth ar gyfrifoldebau a threfniadau cynnal a chadw ar gyfer asedau seilwaith draenio yn y dyfodol.

1.2.4 Mae'r Adroddiad hefyd yn manylu ar berchnogaeth a chyfrifoldeb am yr asedau, ac asedau tir a draenio sy'n gwasanaethu'r ardal.

1.2.5 At ddibenion yr adroddiad hwn, nodwn mai'r ARhRau perthnasol yw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sef yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
- Cyngor Sir Caerfyrddin sef y tîm Priffyrdd
- Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)
- Nodwn hefyd fod gan Pobl a Chyngor Sir Caerfyrddin, fel landlordiaid tai cymdeithasol a landlordiaid masnachol, rôl arwyddocaol i'w chwarae yn rheoli risg llifogydd.

2. Y Digwyddiadau Llifogydd Dydd Llun 4 Hydref a Dydd Mercher 20 Hydref 2021

2.1 Cofnod o Ragolygon Llifogydd, Rhybuddion Tywydd a Data Glawiad

2.1.1 Ceir isod gofnod o'r rhagolygon llifogydd a'r rhybuddion tywydd a gyhoeddwyd ar ac o gwmpas dyddiadau'r digwyddiadau llifogydd ar 4 ac 20 Hydref 2021.

2.2 Dydd Llun 4 Hydref 2021 Cronoleg Tywydd

2.2.1 Dydd Llun 4 Hydref 10:25

2.2.1.1 Cyhoeddodd Cynghorydd Swyddfa Feteorolegol y DU (Swyddfa Dywydd) gyngor ar dywydd gwlyb. Dywedodd "Yn dilyn peth tywydd gwlyb dros y Sul ceir rhai cawodydd trymion yn y rhagolygon heddiw cyn i ardal o law mwy cyson gyrraedd Sir Benfro erbyn diwedd y prynhawn a lledu'n gyflym ar draws Cymru heno ac mae disgwyl i'r glaw fod yn drwm iawn ar adegau. Mae disgwyl i sawl ardal gael tua 2 i 3 awr o law cyson cyn i lawer o'r glaw glirio i'r dwyrain yn ystod oriau mân dydd Mawrth. Bydd peth glaw cawodyd yn dilyn er hynny, yn enwedig felly mewn rhannau o Ganolbarth a Gogledd Cymru lle y mae rhagor o law yn debygol ar adegau bore yfory."

2.2.2 Dydd Llun 4 Hydref 10:28

2.2.2.1 Cyhoeddodd y Ganolfan Darogan Llifogydd rybudd effaith glaw am 10:28am ar y 4 Hydref, yn ddilys o 17:00pm ar ddydd Llun 4 Hydref tan 04:00am ar ddydd Mawrth 5 Hydref, gan nodi fod rhai mân effeithiau llifogydd o afonydd a dŵr wyneb yn bosib. Barnwyd fod y risg llifogydd gyffredinol yn "ISEL".

2.2.3 Dydd Llun 4 Hydref 21:12 (Yn ystod y Storm/Digwyddiad Llifogydd)

- 2.2.3.1 Cyhoeddwyd Rhybudd Llifogydd gan CNC ar gyfer afonydd y Gwendraeth (afonydd yn nalgylchoedd y Gwendraeth Fach a'r Gwendraeth Fawr). Dywedodd "Mae disgwyl i'r cyfnod presennol o law trwm ysgafnhau erbyn 10:00 PM ar ddydd Llun 4 Hydref, a disgwylir ambell gawod wedi hynny. Mae'r cyfuniad o gyflwr y tir, lefelau'r afonydd a faint o law a ddisgynnodd yn creu risg uchel o lifogydd ar dir isel i mewn i oriau mân bore dydd Mawrth."

2.3 Dydd Mawrth 19 Hydref 2021

2.3.1 Dydd Mawrth 19 Hydref 10:32

- 2.3.1.1 Am 10:32 ar ddydd Mawrth 19 Hydref 2021 cyhoeddodd y Ganolfan Darogan Llifogydd rybudd tywydd effaith melyn ar gyfer "mân effeithiau llifogydd dŵr wyneb yn Lloegr a Chymru ar fore dydd Mercher. Mae'r risg llifogydd cyffredinol yn ISEL".

2.3.2 Dydd Mawrth 19 Hydref 10:46

- 2.3.2.1 Dilynwyd hynny'n gyflym am 10:46am gan rybudd storm mellt a tharanau melyn ar gyfer ardaloedd yn cynnwys Cymru gan y Swyddfa Dywydd oedd yn datgan "y gall cyfnod byr o law trwm, stormydd mellt a tharanau a gwyntoedd cryfion iawn greu anawsterau ar fore dydd Mercher". Roedd hwn yn ddilys o 04:00am ar ddydd Mercher 20 Hydref tan 12:00 (canolddydd) ar ddydd Mercher 20 Hydref.

2.3.3 Dydd Mawrth 19 Hydref 11:24

- 2.3.3.1 Dywedodd y Swyddfa Dywydd fod "rhai stormydd mellt a tharanau bywiog iawn yn debygol o symud ar draws Cymru'r peth cyntaf fore Mercher gan greu cyfnodau o law trwm iawn mewn rhai ardaloedd, ynghyd â mellt a tharanau ac efallai rywfaint o wynt cryf a stormus iawn hefyd. Gallai'r stormydd mellt a tharanau hyn gynhyrchu ambell gyfnod byr o dywydd digon annymunol mewn rhai ardaloedd ond byddant yn diflannu'n gyflym erbyn prynhawn dydd Mercher".


2.3.4 Dydd Mercher 20 Hydref 06:12

- 2.3.4.1 Cyhoeddwyd Rhybudd Llifogydd gan CNC ar gyfer afonydd y Gwendraeth a ddywedodd fod “Cawodydd trwm a tharanlyd yn parhau’n bosib y bore yma, dydd Mercher 20 Hydref 2021. Mae’r cyfuniad o gyflwr y tir, lefelau’r afonydd a faint o law a ddisgynnodd yn creu risg uchel o lifogydd ar dir isel yn ystod y 12 awr nesaf”.

2.4 Data Glawiad Dydd Llun 4 Hydref 2021

- 2.4.1 Gall darparydd gwasanaeth tywydd Cyngor Sir Caerfyrddin, MetDesk, ddarparu symiau o law mewn milimedrau (mm) ar gyfer unrhyw awr trwy gydol y dydd. Dangosir y symiau o law a gofnodwyd trwy radar fesul awr (mm) ar gyfer Clos yr Helyg a Heol y Fferi isod yn Ffigur 1. Rhwng 18:00pm ac 20:00pm, syrthiodd 20.3mm a 27mm o law yng Nghlos yr Helyg a Heol y Fferi, yn y drefn honno. Er mwyn rhoi dwyster y glawiad yn ei gyd-destun, mae 30mm o law mewn cyfnod o 24-awr yn symbyliad arferol i Gyngor Sir Caerfyrddin ymateb.


Ffigur 1 - Cyfansymiau glawiad a gyhoeddwyd gan MetDesk yng Nghydsweli ar gyfer pob awr ar 4 Hydref 2021 (mm).



- 2.4.2 Cyfansymiau glawiad 24-awr MetDesk ar gyfer dydd Llun 4 Hydref 2021 oedd 25.1mm yng Nghlos Yr Helyg a 31.4mm yn Heol y Fferi. Fel y gwelir o Ffigur 2 uchod, syrthiodd mwyafrif mawr cyfanswm y glaw dros 24-awr (mwy nag 80%) dros 2 awr rhwng 18:00pm ac 20:00pm.

Dangosir y cyfansymiau glawiad cronol a gofnodwyd gan radar dros 24-awr yn Ffigur 2 isod.


Ffigur 2 - Cyfansymiau glawiad 24-awr cronol (mm) yn Sir Gaerfyrddin ar 4 Hydref 2021



2.5 Data Glawiad 20 Hydref 2021


2.5.1 Dangosir y cyfansymiau glawiad a gofnodwyd gan radar ar gyfer Clos yr Helyg a Heol y Fferi yn Ffigur 3 - Cyfansymiau glawiad a gofnodwyd yng Nghydweli ar gyfer pob awr ar 20 Hydref 2021 (mm). isod. Yn ystod yr awr rhwng 04:00am a 05:00am cofnodwyd 8.1mm o law yng Nghlos yr Helyg a 10.1mm yn Heol y Fferi. Rhwng 05:00am a 06:00am, syrthiodd 32.9mm a 25.2mm o law yng Nghlos yr Helyg a Heol y Fferi, yn y drefn honno.

Ffigur 3 - Cyfansymiau glawiad a gofnodwyd yng Nghydweli ar gyfer pob awr ar 20 Hydref 2021 (mm).



2.5.2 Cyfansymiau glawiad 24-awr MetDesk ar gyfer dydd Mercher 20 Hydref 2021 oedd 60.1mm yng Nghlws Yr Helyg a 53.1mm yn Heol y Fferi. Fel y gellir gweld o uchod, syrthiodd tua 50% o gyfanswm y glawiad dros 24-awr yn ystod un awr rhwng 05:00am a 06:00am. Dangosir y cyfansymiau glawiad cronol a gofnodwyd gan radar dros 24-awr yn Ffigur 4 isod.

Ffigur 4 - Cyfansymiau glawiad 24-awr cronol (mm) yn Sir Gaerfyrddin ar 20 Hydref 2021.



3. Yr Ymchwiliad Llifogydd – Clos yr Helyg a Pharc Pendre

3.1 Rhagarweiniad

- 3.1.1 Bydd y rhan hon o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 Hydref ac 20 Hydref 2021 yng Nghlos yr Helyg a Pharc Pendre. Mae hon yn ardal breswyl fawr sy'n cynnwys tua 90 o gartrefi yng nghornel dde-ddwyrainiol Cydweli (Ffigur 5)

Ffigur 5 - Ardal ymchwilio llifogydd Clos yr Helyg a Pharc Pendre.



3.2 Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021

- 3.2.1 Am 11pm ar 4 Hydref derbyniodd swyddog ar ddyletswydd tu allan i oriau CSC alwad ynghylch llifogydd difrifol yng Nghydweli. Dywedwyd wrth y tîm ar ddyletswydd gylchol i fynd yno cyn gynted ag y gallent.
- 3.2.2 Am 2:30am gofynnodd y cynghorydd lleol am fwy o fagiâu tywod oherwydd pryderon am llifogydd. Nododd swyddog ar ddyletswydd CSC fod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi bod yn y safle ond eu bod wedi gadael. Gofynnwyd i'r tîm cylchol fynd yno ac archwilio'r sgriniau brigau lleol.
- 3.2.3 Am 5am nododd swyddog ar ddyletswydd CSC ar y cofnod digwyddiadau y gadawyd bagiau tywod yng Nghydweli ac y dywedodd y timau fod pob grid yn glir.

- 3.2.4 Am 9:28am dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd wrth Reolwr ALIDA CSC y cafwyd digwyddiad difrifol dros nos.
- 3.2.5 Aeth swyddog o dîm ALIDA i'r safle yn syth a dechreuodd ymchwilio'r digwyddiad. Darganfu'r swyddog fod 9 cartref wedi dioddef llifogydd mewnol yng Nghlos Yr Helyg. Galwyd am gcontractwr lleol i lanhau ac archwilio'r prif ddraen ym Mharc Pendre.
- 3.2.6 Mae ffotograffau o'r llifogydd (Ffigur 6), (a gymerwyd o negeseuon Facebook) yn dangos faint o lifogydd a gafwyd yng Nghlos yr Helyg.


Ffigur 6 - Ffotograffau o'r llifogydd yng Nghlos yr Helyg ar 4 Hydref 2021 (Gemma Wilby).



- 3.2.7 Roedd y gwaith brys a wnaed ar y rhwydwaith draenio lleol yn cynnwys jetio ac archwiliad camera o'r llinell. Ni ddarganfuwyd unrhyw broblemau ar hyd ceuffos Parc Pendre.
- 3.2.8 Yng ngollyngfa Parc Pendre, ar waelod Parc Pendre, gwelodd y contractwr fod y sgrin wedi'i orchuddio â sbwriel carthion. Cafodd hyn ei glirio a thynnwyd y sgrin allan i atal rhagor o rwystrau.
- 3.2.9 Defnyddiodd y tîm Priffyrdd ysgubwr carthffosydd i sicrhau bod yr holl ffosdyllau priffyrdd yng Nghlos yr Helyg a Pharc Pendre yn glir.
- 3.2.10 Cysylltwyd â DCWW a gofynnwyd iddynt archwilio'u system, a'r orsaf bwmpio ar waelod Parc Pendre. Ni chafwyd gwybod am unrhyw broblemau.

3.2.11 O blith yr holl adroddiadau o lifogydd y tu fewn i gartrefi a dderbyniodd CSC, dywedodd mwyafrif mawr y trigolion mai'r ffynhonnell oedd 'dŵr wyneb' fel y gwelir yn Ffigur 7 isod.

Ffigur 7- Ffynhonnell llifogydd mewn eiddo ar 4 Hydref 2021, a gofnodwyd gan drigolion CSC.



3.3 Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsylwadau Safle – Dydd Mercher 20 Hydref 2021

- 3.3.1 Ni dderbyniodd CSC unrhyw adroddiadau am lifogydd o Glos yr Helyg ar 20 Hydref 2021.
- 3.3.2 Fodd bynnag, pan aeth swyddogion ALIDA CSC i'r safle, gwelsant fod 8 cartref wedi dioddef yr un math o lifogydd ag a ddigwyddodd ar 4 Hydref.
- 3.3.3 Trwy weithio gyda'r tîm Priffyrdd, aeth y tîm ALIDA ati i ddadsiltio'r cwrs dŵr cyffredin yng nghefn Clos yr Helyg.
- 3.3.4 Bu'r tîm Priffyrdd a'u contractwyr yn ysgubo'r heolydd ac yn glanhau ffosdyllau.
- 3.3.5 Cyfarfu'r Cyngor gyda Landlord Clos yr Helyg, [Grŵp Tai Pobl](#), a buont yn trafod yr arolygon a'r ymyriadau oedd eu hangen i ddeall y digwyddiadau llifogydd.

3.4 Hanes Llifogydd - Clos yr Helyg a Pharc Pendre

- 3.4.1 Cofnodion Llifogydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)
 - 3.4.1.1 Y tîm ALIDA yn CSC yw'r tîm sy'n rheoli risg llifogydd o ddŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear. Nid oes dyletswydd statudol i wneud gwaith lliniaru llifogydd, ond mae gan y Cyngor rymoedd statudol i reoli'r risg.

- 3.4.1.2 1.1.1.1 Mae gan y tîm ALIDA un cofnod o lifogydd blaenorol yng Nghlos Yr Helyg, fel y gwelir yn Ffigur 8.

Ffigur 8 - Hanes llifogydd mewn eiddo yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.

Dyddiad	Lleoliad	Achos	Sawl Eiddo a effeithiwyd
5ed Medi 2008	Clos yr Helyg	Anhysbys	5

3.4.2 Cofnodion Llifogydd Tîm Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin

- 3.4.2.1 Nid oes gan y tîm Priffyrdd yn CSC unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yng Nghlos yr Helyg na Pharc Pendre.

3.4.3 Cofnodion Llifogydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

- 3.4.3.1 Nid oes gan DCWW unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yng Nghlos yr Helyg na Pharc Pendre.

3.4.4 Cofnodion Llifogydd Pobl

- 3.4.4.1 O ran digwyddiadau a adroddwyd, dywedodd Pobl 'ein bod wedi gwirio ein systemau, ac ni chafwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau llifogydd neu dagfeydd mewn draeniau ar y safle ers mwy na 6 blynedd'.

Cam Gweithredu 1

CSC a Pobl

Grymuso trigolion Clos yr Helyg a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylai trigolion ddeall yn iawn pwy sy'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.

3.5 Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Clos yr Helyg a Pharc Pendre

3.5.1 Cyrsiau Dŵr Cyffredin

- 3.5.1.1 Mae dau gwrs dŵr cyffredin, dienw yn ardal Clos yr Helyg a Pharc Pendre.
- 3.5.1.2 Cafodd y cyntaf ei sianelu ac mae'n llifo'n dde-orllewinol o Stryd Monksford i lawr ochr ogledd-orllewinol y Co-op, ac yna i lawr Parc Pendre (Ffigur 9). Yr enw ar hwn yw ceuffos/cwrs dŵr Parc Pendre ar system rheoli asedau ALIDA CSC.

Ffigur 9- Map o geuffos dŵr wyneb Parc Pendre .



- 3.5.1.3 Mae'r ail gwrs dŵr cyffredin yn ffos sy'n cychwyn ar ffiniau deheuol archfarchnad y Co-op ac sy'n llifo o gwmpas Clos yr Helyg (Ffigur 10). Yr enw ar hwn yw ffos Clos yr Helyg ar system rheoli asedau ALIDA CSC.

Ffigur 10 - Map o gwrs dŵr arferol Clos yr Helyg.



- 3.5.1.4 Mae cwrs dŵr Parc Pendre yn draenio dŵr wyneb o ardal o tua 35 hectar. Yn gyffredinol, mae'n cynnwys cymysgedd o ddŵr ffo dŵr wyneb trefol a gwledig.
- 3.5.1.5 Mae gan gwrs dŵr Clos yr Helyg ddalgylch cryn dipyn yn llai o tua 2.6 hectar, a chan eithrio darn o faes parcio'r Co-op, caiff ei fwydo gan ddŵr ffo dŵr wyneb a dŵr draenio o gaeau cyfagos.
- 3.5.1.6 Mae'r cyrsiau dŵr cyffredin hyn yn uno yng nghefn gorsaf bwmpio DCWW ym Mharc Pendre ac yna'n llifo i'r de i'r Afon Gwendraeth.

3.5.2 Asedau Rheoli Risg Llifogydd CSC

- 3.5.2.1 Ceuffos Parc Pendre
 - 3.5.2.1.1 Mae ceuffos goncrit 900mm o ddiamedr, 448 metr o hyd sy'n eiddo i ac yn cael ei reoli gan CSC. Mae'r geuffos hon yn rheoli draeniad priffyrdd a dŵr wyneb ac mae hefyd yn cynnwys cwrs dŵr o'r gogledd fel y soniwyd ym mharagraff 3.5.1.2.
 - 3.5.2.1.2 Mae'r drefn archwilio a chynnal a chadw arferol ar gyfer yr ased hwn yn dibynnu ar ei gyflwr. Ar hyn o bryd, cynhelir archwiliadau blynyddol ar asedau y

gwyddys eu bod mewn cyflwr gwael iawn. Caiff asedau mewn cyflwr gwael eu harchwilio bob 2 flynedd a chaiff asedau y bernir eu bod mewn cyflwr da neu well eu harchwilio bob 3-5 blynedd, gan ddibynnu ar y risg.

- 3.5.2.1.3 Dangosodd archwiliad CCTV a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019 fod ceuffos Parc Pendre mewn cyflwr gwael oherwydd diffygion gwasanaeth a strwythurol, fel y dangosir yn Ffigur 11. Penderfynwyd cywiro'r diffygion hyn ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2019 a'r bwriad oedd ailarchwilio'r ased yng ngwanwyn 2021. Ni ddigwyddodd hynny oherwydd cyfyngiadau COVID.

Cam Gweithredu 2
Tîm ALIDA CSC
 Cynnal archwiliad draenio CCTV o'r geuffos ym Mharc Pendre.


Ffigur 11 - Rhestr o ddiffygion a ganfuwyd yn arolwg CCTV 2019 o geuffos Parc Pendre.

Cyfeirnod	Cam Gweithredu a Argymhellir	Dyddiad a Ychwanegwyd	Ychwanegwyd gan	Disgrifiad o'r Gwaith	Cwblhawyd y Gwaith
SI1900209	Dadsiltio	19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Dadsiltio	6 Rhag 2019
BR1900005		19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Atgyweirio	13 Tach 2019
SI1900210	Dadsiltio	19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Dadsiltio	6 Rhag 2019
BR1900004		19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Atgyweirio	13 Tach 2019
BR1900006		19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Atgyweirio	13 Tach 2019
SI1900211	Dadsiltio	19eg Medi 2019	Malcolm Edwards	Dadsiltio	6 Rhag 2019

3.5.2.2 Cwrs Dŵr Clos yr Helyg

- 3.5.2.2.1 Yn dilyn digwyddiadau llifogydd Hydref 2021, ychwanegwyd cwrs dŵr Clos yr Helyg at gronfa ddata asedau ALIDA. Mae peth o'r tir y mae'r cwrs dŵr yn llifo trwyddo yn eiddo i CSC, fel y dangosir yn Ffigur 12.
- 3.5.2.2.2 Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi darganfod unrhyw dystiolaeth o waith cynnal a chadw yn y cwrs dŵr hwn dros y blynyddoedd. Yn hynny o beth, amharwyd ar ei allu i dderbyn a danfon dŵr wyneb.

Ffigur 12 - Map o'r tir sy'n eiddo i CSC yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.



Cam Gweithredu 3

Tîm ALIDA CSC

Sicrhau bod cwrs dŵr Clos yr Helyg yn cael ei reoli byth bythoedd.

3.5.2.3 Asedau tîm Priffyrdd CSC

3.5.2.4 Ac eithrio'r carthffosydd dŵr wyneb, nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw archwiliadau na mapiau o asedau draenio'r briffordd yn yr ardal hon. Edrychodd archwiliad CCTV 2019, a gomisiynwyd gan y tîm ALIDA, ar y system dŵr wyneb, nid ar system ddraenio'r Priffyrdd.

Cam Gweithredu 4

Tîm Priffyrdd CSC

Cynnal archwiliad CCTV o system ddraenio'r priffyrdd i lawr Clos yr Helyg er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a chywiro unrhyw ddiffygion yn unol â hynny.

Cam Gweithredu 5

Adran yr Amgylchedd CSC

Sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draeniau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.

- 3.5.2.5 Yng Nghlos yr Helyg mae gan y briffordd ei system ddraenio annibynnol ei hun. Caiff ei gwasanaethau gan ddau ffosdwl wyneb sy'n draenio'r gerbyddfordd a'r llwybr cerdded. Mae'r ffosdyllau yn rhyddhau i geuffos blastig 150mm sy'n cludo dŵr wyneb i gyfeiriad de-ddwyreiniol i'r cwrs dŵr cyffredin fel y gwelir yn Ffigur 13 - Map o'r system draenio priffyrdd yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli. isod.

Ffigur 13 - Map o'r system draenio priffyrdd yng Nghlos Yr Helyg, Cydweli.



- 3.5.2.6 Ceisiodd archwiliad CCTV 2019 archwilio system ddraenio Clos yr Helyg. Fodd bynnag, darganfu'r ymchwiliad hwn na chwblhawyd yr archwiliad oherwydd llaid a dŵr yn y llinell. Byddai dŵr yn y llinell yn awgrymu diffygion yn y system. Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi gallu dod o hyd i unrhyw gofnodion yr adroddwyd ar y diffygion hyn, nag y cawsant eu cofnodi na'u datrys.

Cam Gweithredu 6

Adran yr Amgylchedd CSC

Datblygu dull cadarnach o astudio archwiliadau draeniau CCTV a chofnodi a gweithredu ar unrhyw ddiffygion rhwng isadrannau a thimau.

- 3.5.2.7 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar asedau priffyrdd yn adweithiol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.

3.5.2.8 Nid oes unrhyw gofnodion o unrhyw ddiffygion na materion ar systemau priffyrdd Parc Pendre na Chlos yr Helyg, ac o'r herwydd nid oes unrhyw gofnod o waith cynnal a chadw.

3.5.2.9 Yr eithriadau i hyn yw'r carthffosydd priffyrdd hynny y cynhelir rhaglen cynnal a chadw blynyddol anffurfiol arnynt. Canfu'r ymchwiliad hwn 3 chofnod cynnal a chadw er 2015, fel y gwelir isod yn Ffigur 14 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd er 2015. ac yn Atodiad A a B.

Ffigur 14 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd er 2015.

Blwyddyn	Lleoliad	Dyddiad	Diffygion
2017	Parc Pendre	1 Medi	Dim
2021	Clos yr Helyg	28 Hydref	25% Llaidd
2021	Parc Pendre	28 Hydref	25-100% Llaidd

3.5.3 Asedau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

3.5.3.1 Prif asedau DCWW yn yr ardal yw'r draeniau dŵr brwnt a'r orsaf bwmpio ar waelod Parc Pendre.

3.5.3.2 Gellir gweld map o asedau DCWW yn Atodiad A. Mae'r map hwn yn dangos fod system dŵr wyneb breifat (gwyrdd) a system dŵr brwnt DCWW (brown) yn yr ardal.

3.5.3.3 Dywedodd DCWW eu bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar eu hasedau yn adweithiol, wrth iddynt gael gwybod am broblemau. Dangosodd gwiriad hanes 5 mlynedd o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt y cafwyd 4 rhwystr ym Mharc Pendre ond dim digwyddiadau yng Nghlos yr Helyg.

3.5.4 Systemau Dŵr Wyneb Preifat

3.5.4.1 Darganfu'r ymchwiliad hwn fod Clos yr Helyg yn cael ei wasanaethu gan system draenio dŵr wyneb breifat (Atodiad A). Mae'r system hon yn casglu dŵr glaw o doeau a buarthau anheddau ac yn ei alluogi i ddraenio i ffwrdd.

- 3.5.4.2 Mae Pobl, sef y landlordiaid, yn gyfrifol am reoli'r system ddraenio hon. Fodd bynnag, nid ydynt wedi gallu darparu unrhyw gynlluniau draenio ar gyfer yr ymchwiliad hwn.
- 3.5.4.3 O ran cynnal a chadw'r system dŵr wyneb breifat, dywedodd Pobl 'fod pob un o'n hystadau yn cael eu harchwilio'n weledol yn rheolaidd gan ein timau ystadau a'n contractwyr cynnal a chadw tiroedd, fydd yn nodi unrhyw faterion gweledol ac yn cyflwyno adroddiad i'r busnes er mwyn cymryd camau priodol'. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion ychwanegol.

Cam Gweithredu 7

Pobl

Sicrhau bod cofnodion cadarn o'r system ddraenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw flynyddol.

3.6 Asesiad Canlyniadau Llifogydd Clos yr Helyg (ACLI) a gefnogodd y cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai Clos yr Helyg.

- 3.6.1 Archwiliodd swyddogion ALIDA CSC ffeil gynllunio Clos yr Helyg er 2006. Ym Mai 2006 cafwyd cais cynllunio ar gyfer Stad Clos yr Helyg yn cynnwys cynnig ar gyfer 4 fflat a 12 tŷ ar dir (4800 metr sgwâr) ym Mharc Pendre, Cydweli.
- 3.6.2 Ar 25 Gorffennaf 2006 nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod y safle datblygu arfaethedig mewn Parth Llifogydd B. Dywedasant mai'r bwriad oedd adeiladu tai dros gwrs dŵr a'i bod yn annhebyg y byddai unrhyw geisiadau i sianelu'r cwrs dŵr hwn yn cael eu cymeradwyo. Roeddent yn mynnu fod y cwrs dŵr yn cael ei adael ar agor. Nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad o ran egwyddor i'r datblygiad, ond roedd yn ymddangos fod unrhyw faterion risg llifogydd yn gysylltiedig â sianel ddraenio, a dywedasant felly y dylid ymgynghori â pheirianwyr y Cyngor. Gofynasant am gynllun safle diwygiedig ac am ddarpariaeth ar gyfer draenio dŵr wyneb.
- 3.6.3 Cynhaliwyd Asesiad Canlyniad Llifogydd gan Quantum ym mis Mawrth 2006 i gefnogi'r datblygiad. Gwelsant yn yr ymweliad safle cyntaf fod y tir yn soeglyd oherwydd bod cymaint o ferddwr arno.

- 3.6.4 Casgliad yr ACLI yw bod y potensial am lifogydd yn dod o'r cynnydd mewn dŵr ffo dŵr wyneb sy'n gysylltiedig â datblygu ardaloedd anhydraidd o lawr caled ac adeiladau ar y safle. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif cynnydd mewn dŵr ffo dŵr wyneb o tua 225.4 metr ciwbig ar gyfer storm un awr (23mm). Daethpwyd i'r casgliad fod y cynnydd hwn mewn dŵr ffo yn creu problemau llifogydd posib i'r datblygiad ei hun ar gyfer unrhyw gyrsiau dŵr derbyn ac adeiladau i lawr yr afon.
- 3.6.5 Roedd y cynllun draenio dŵr wyneb a gymeradwywyd yn golygu ailfodelu'r draen/cwrs dŵr blaenorol yn ddraen Ffrengig newydd yn rhedeg ar draws y datblygiad ac yn gollwng i'r ffos ddraenio a adferwyd yn rhedeg ar hyd y ffin dde-ddwyreiniol, fel y gwelir isod yn Ffigur 15 - Map o'r cynllun draenio dŵr wyneb a gymeradwywyd ar gyfer Clos yr Helyg, Cydweli (Quantum, 2006)..

Ffigur 15 - Map o'r cynllun draenio dŵr wyneb a gymeradwywyd ar gyfer Clos yr Helyg, Cydweli (Quantum, 2006).



3.7 Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad - Clos yr Helyg

- 3.7.1 Ar 4 ac 20 Hydref 2021, dioddefodd trigolion yng Nghlos yr Helyg lifogydd arwyddocaol. Ar noson 4 Hydref 2021, syrthiodd 20.3mm o law mewn 2 awr a dioddefodd 9 cartref lifogydd mewnol. Ar fore 20 Hydref 2021, syrthiodd 32.9mm o law mewn un awr (41mm mewn cyfnod o 2 awr) a dioddefodd yr un 8 cartref lifogydd. Gellid disgrifio'r ddau ddigwyddiad yn ddigwyddiadau 'fflachlif' lle y mae gwerth diwrnod o law yn syrthio dros gyfnod llawer byrrach.
- 3.7.2 Daeth ACLI 2006 ar gyfer datblygiad Clos yr Helyg i'r casgliad fod y potensial am lifogydd yn dod o'r cynnydd mewn dŵr ffo dŵr wyneb sy'n gysylltiedig â datblygu ardaloedd anhydraidd o lawr caled ac adeiladau ar y safle. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif cynnydd mewn dŵr ffo dŵr wyneb o tua 225.4 metr ciwbig ar gyfer storm un awr 23mm. Dyma ddigwyddodd ar 4 ac 20 Hydref 2021.
- 3.7.3 Mae'r glaw sy'n syrthio yng Nghlos yr Helyg yn cael ei reoli fel arfer gan ddwy system ddraenio. Y brif system yw'r system dŵr wyneb breifat (paragraff 3.5.4 ac Atodiad A) sy'n eiddo i ac yn cael ei chynnal gan Pobl. Yr ail system yw'r system draenio priffyrdd (paragraff 3.5.2.3) sy'n eiddo i ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin sef y tîm Priffyrdd. Fodd bynnag, daeth yr ymchwiliad hwn i'r casgliad nad oes gan y tîm priffyrdd na Pobl raglenni archwilio neu gynnal a chadw rheolaidd ar gyfer y systemau draenio hyn. Caiff y ffosdyllau priffyrdd eu clirio'n flynyddol ond nid yw'r draeniau cysylltiol yn cael eu glanhau oni bai y rhoddir gwybod am broblem. Nid yw Pobl wedi gallu darparu unrhyw wybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar eu hasedau draenio nag unrhyw fanylion am waith cynnal a chadw a wnaed ganddynt.
- 3.7.4 Yn ogystal â'r uchod, mae'r ymchwiliad hwn yn nodi fod yna amgylchiadau gwaethybol ychwanegodd ymhellach at fwy o risg llifogydd yng Nghlos yr Helyg. Yn gyntaf, roedd y cwrs dŵr derbyn – cwrs dŵr cyffredin Clos yr Helyg – mewn cyflwr gwael ac nid oedd unrhyw drefniadau archwilio na chynnal a chadw ar waith. Yn ail, mae'r ymchwiliad hwn yn nodi fod y cwmp dail ym mis Hydref wedi llenwi rhai o'r carthffosydd a'i fod oherwydd wedi gwneud y draeniau yn llai effeithiol fyth.
- 3.7.5 Wrth ymateb, mae'r ymchwiliad hwn wedi cynnig 7 cam i'w cymryd yn y tymor byr a chanolig gan Pobl a CSC (sef y tîm Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol) i reoli'r risg llifogydd yng Nghlos yr Helyg. Rhestrir y camau gweithredu hyn isod yn Ffigur 16.

Ffigur 16 - Tabl o'r 8 cam i'w cymryd yng Nghlos yr Helyg gan CSC a Pobl.


Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
1	CSC a Pobl	Rhaid i CSC a Pobl rymuso trigolion Clos yr Helyg a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylan trigolion ddeall yn iawn pwysy'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.	Uchel
2	CSC	Rhaid i Dîm ALIDA CSC gynnal archwiliad draenio CCTV o'r geuffos ym Mharc Pendre.	Canolig
3	CSC	Rhaid i Dîm ALIDA CSC sicrhau bod cwrs dŵr Clos yr Helyg yn cael ei reoli byth bythoedd.	Canolig
4	CSC	Rhaid i Dîm Priffyrdd CSC gynnal archwiliad CCTV o system ddraenio'r priffyrdd i lawr Clos yr Helyg er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a chywiro unrhyw ddiffygion yn unol â hynny.	Uchel
5	CSC	Rhaid i Adran yr Amgylchedd CSC sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draeniau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.	Canolig
6	CSC	Rhaid i Adran yr Amgylchedd CSC ddatblygu dull cadarnach o astudio archwiliadau draeniau CCTV a chofnodi a gweithredu ar unrhyw ddiffygion rhwng is-adrannau a thimau.	Canolig
7	Pobl	Rhaid i Pobl sicrhau bod cofnodion cadarn o'r system ddraenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw flynyddol.	Uchel

4. Yr Ymchwiliad Llifogydd – Llys Gwenllian

4.1 Rhagarweiniad

- 4.1.1 1.1.1 Bydd y rhan hon o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 Hydref ac 20 Hydref 2021 yn Llys Gwenllian. Ardal breswyl fechan breifat yw hon sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Pobl, ac mae'n cynnwys tua 40 o gartrefi yng nghornel ogledd orllewinol Cydweli (Ffigur 17).

Ffigur 17 - Map o Llys Gwenllian, Cydweli.



4.2 Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021

- 4.2.1 Ar 4 Hydref, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau am lifogydd yn Llys Gwenllian. O'r herwydd, nid yw'r ymchwiliad digwyddiadau hwn yn cynnwys yr ardal hon ar gyfer y cyfnod hwn.

4.3 Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsyllwadau Safle – Dydd Mercher 20 Hydref 2021

- 4.3.1 Ar 20 Hydref, derbyniodd tîm ALIDA yn CSC 1 adroddiad am lifogydd yn Llys Gwenllian.

Cam Gweithredu 8

CSC a Pobl

Grymuso trigolion Llys Gwenllian a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylai trigolion ddeall yn iawn pwysu'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.

4.4 Ymchwiliadau, Arsylwadau ac Ymweliadau Safle Dilynol – Llys Gwenllian

- 4.4.1 Cwblhawyd rhaglen o lanhau ffosdyllau priffyrdd.
- 4.4.2 Ar 3 Tachwedd 2021, aeth swyddogion o dîm ALIDA CSC i'r safle a mynd o ddrws i ddrws i holi am lifogydd diweddar. Cawsant wybod am 7 digwyddiad llifogydd mewnol, yn ogystal â 9 cartref a theulu oedd yn cael anhawster i reoli'r dŵr wyneb yn eu gerddi. Nid oedd neb wedi rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn. Nid oedd unrhyw ateb mewn 11 cartref. Cafwyd gwybod yn ystod y trafodaethau gyda thrigolion y cafwyd nifer o ddigwyddiadau llifogydd ar 4 Hydref 2021 ond na roddwyd gwybod amdanynt ar y pryd.
- 4.4.3 Ar 12 Ionawr 2022, aeth swyddogion o Pobl a thîm ALIDA CSC i Lys Gwenllian i drafod y materion draenio. Wedi archwilio'r ardal, archwiliodd swyddogion CSC y caeau i'r gogledd o Lys Gwenllian. Gwelsant yno nifer o ffynhonnau yn gollwng dŵr sydd yn y pendraw yn llifo i lawr i gefn Llys Gwenllian (Ffigur 18).

Cam Gweithredu 9

CSC a Pobl

Rhaid i dîm ALIDA CSC weithio gyda'r perchennog tir i reoli'r llif mewn ffordd sy'n creu'r risg leiaf i drigolion Llys Gwenllian.

Ffigur 18 - Ffotograffau o'r ffynhonnau sy'n gollwng dŵr tuag at Llys Gwenllian.



4.5 Hanes Llifogydd (Llys Gwenllian)

4.5.1 Cofnodion Llifogydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)

4.5.1.1 Nid oes gan dîm ALIDA unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn Llys Gwenllian.

4.5.2 Cofnodion Llifogydd y tîm Priffyrdd

4.5.2.1 Nid oes gan y tîm priffyrdd unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn Llys Gwenllian.

4.5.4 Cofnodion Llifogydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

4.5.4.1 Nid oes gan DCWW unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn Llys Gwenllian.

4.5.5 Cofnodion Llifogydd Pobl

4.5.5.1 Nid oes gan Pobl unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn Llys Gwenllian.

4.6 Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Llys Gwenllian

4.6.2 Cyrsiau Dŵr Cyffredin

4.6.2.1 Nid oes unrhyw gyrsiau dŵr cyffredin yn yr ardal hon.

4.6.3 Asedau Rheoli Risg Llifogydd CSC

4.6.3.1 Nid oes gan dîm ALIDA CSC unrhyw asedau rheoli risg llifogydd yn yr ardal hon.

4.6.4 Asedau Tîm Priffyrdd CSC

4.6.4.1 Ac eithrio'r carthffosydd dŵr wyneb, nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw arolygon na mapiau o'r asedau draenio Priffyrdd yn yr ardal hon.

4.6.4.2 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar asedau priffyrdd yn adweithiol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.

4.6.4.3 Nid oes unrhyw gofnodion o unrhyw ddiffygion na materion ar systemau priffyrdd Llys Gwenllian ac o'r herwydd nid os unrhyw gofnod o waith cynnal a chadw.

4.6.4.4 Yr eithriadau i hyn yw'r ffosdyllau priffyrdd hynny y cynhelir rhaglen cynnal a chadw blynyddol anffurfiol arnynt. Gwiriodd yr ymchwiliad hwn y cofnodion a chafodd y ffosdyllau yn Llys Gwenllian eu glanhau 3 gwaith yn y 7 mlynedd ddiwethaf fel y gwelir yn Ffigur 19 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Llys Gwenllian. isod ac yn Atodiad B.

Ffigur 19 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Llys Gwenllian.

Blwyddyn	Lleoliad	Dyddiad	Diffygion
2015	Llys Gwenllian	8 Hydref	Dim
2017	Llys Gwenllian	8 Medi	Dim
2021	Llys Gwenllian	11 Hydref	25-100% llaid

Cam Gweithredu 10

Tîm Priffyrdd CSC

Cynnal archwiliad CCTV o'r system draenio priffyrdd ar hyd Llys Gwenllian i ddeall ei llwybr, ei chysylltiad â systemau draenio eraill a sicrhau y caiff unrhyw ddiffygion eu cywiro.

4.6.5 Asedau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

4.6.5.1 Gellir gweld map o asedau DCWW yn Atodiad AC. Mae'r map hwn yn dangos fod system dŵr wyneb breifat (gwyrdd) a system dŵr brwnt DCWW (brown) yn yr ardal.

4.6.5.2 Dywedodd DCWW eu bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar eu hasedau yn adweithiol, wrth iddynt gael gwybod am broblemau. Dangosodd gwiriad hanes 5 mlynedd o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt na fu unrhyw ddigwyddiadau llifogydd, y cafwyd dau rwystr gweithredol ac 1 mater arogl.

4.6.6 Systemau Dŵr Wyneb Preifat

4.6.6.1 Darganfu'r ymchwiliad hwn fod Llys Gwenllian yn cael ei wasanaethu gan system draenio dŵr wyneb breifat. Mae'r system hon yn casglu dŵr glaw o doeau a buarthau anheddau ac yn ei alluogi i ddraenio i ffwrdd.

4.6.6.2 Mae Pobl, sef y landlordiaid, yn gyfrifol am reoli'r system ddraenio hon. Fodd bynnag, nid ydynt wedi gallu dod o hyd i unrhyw osodiadau draeniau yn Llys Gwenllian na darparu unrhyw gynlluniau draenio ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

4.6.6.3 O ran cynnal a chadw'r system dŵr wyneb breifat, dywedodd Pobl 'fod pob un o'n hystadau yn cael eu harchwilio'n weledol yn rheolaidd gan ein timau ystadau a'n contractwyr cynnal a chadw tiroedd, fydd yn nodi unrhyw faterion gweledol ac yn

cyflwyno adroddiad i'r busnes er mwyn cymryd camau priodol'. Ychwanegodd Pobl hefyd fod 'y geuffos yn Rhif 15 Llys Gwenllian yn cael ei harchwilio a'i chlirio'n flynyddol ac os cafwyd unrhyw gyfnodau arwyddocaol o law, fod y siambr yn cael ei harchwilio rhag ofn fod rhwystrau ac ati'.

Cam Gweithredu 11

Pobl

Fel Cam Gweithredu 7, sicrhau bod cofnodion cadarn o systemau draenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw flynyddol.

4.7 Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Llys Gwenllian

- 4.7.1 Ar 4 ac 20 Hydref 2021, dioddefodd trigolion yn Llys Gwenllian lifogydd arwyddocaol. Ar noson 4 Hydref 2021, syrthiodd 27mm o law mewn 2 awr (data MetDesk ar gyfer Heol y Fferi gerllaw) ond ni ddaeth yr ymchwiliad hwn o hyd i unrhyw dystiolaeth o lifogydd mewn eiddo adeg llunio'r adroddiad hwn. Ar fore 20 Hydref 2021, syrthiodd 35.3mm o law mewn cyfnod o 2 awr (data MetDesk, Heol y Fferi) a'r tro hwn rhoddwyd gwybod i CSC am y problemau. Dangosodd ymchwiliad drws i ddrws diweddarach hyd a lled y digwyddiad a'r problemau draenio, a deillir erbyn hyn y dioddefodd 7 cartref lifogydd mewnol, a bod o leiaf 9 eiddo wedi dioddef llifogydd allanol. Gellid disgrifio'r ddau ddigwyddiad yn ddigwyddiadau 'fflachlif' lle y mae gwerth diwrnod o law yn syrthio dros gyfnod llawer byrrach.
- 4.7.2 Mae'r glaw sy'n syrthio yn Llys Gwenllian yn cael ei reoli fel arfer gan ddwy system ddraenio. Y brif system yn Llys Gwenllian yw system dŵr wyneb breifat sy'n eiddo i ac yn cael ei chynnal gan Pobl, fel y dangosir ar fapiau DCWW yn Atodiad C. Yr ail system yw system draenio priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n eiddo i ac yn cael ei chynnal gan y tîm Priffyrdd. Fodd bynnag, daeth yr ymchwiliad hwn i'r casgliad nad oes gan y tîm priffyrdd na Pobl raglenni archwilio neu gynnal a chadw rheolaidd ar gyfer y systemau draenio hyn. Cafodd y ffosdyllau priffyrdd eu clirio dair gwaith mewn saith mlynedd (Ffigur 19), ond nid yw'r draeniau cysylltiol yn cael eu glanhau oni bai y rhoddir gwybod am broblem. Nid yw Pobl wedi gallu darparu unrhyw wybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar eu hasedau draenio nag unrhyw fanylion am waith cynnal a chadw a wnaed ganddynt.
- 4.7.3 Yn ogystal â'r uchod, mae'r ymchwiliad hwn yn nodi fod merddwr a dŵr wyneb o'r tir uwchlaw Llys Gwenllian hefyd yn cael effaith andwyol ar risg llifogydd yn yr ardal hon.

4.7.4 Wrth ymateb, mae'r ymchwiliad hwn wedi cynnig 4 cam gweithredu i'w cymryd yn y tymor byr a chanolig term gan Pobl a CSC (sef y tîm Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol) i reoli'r risg llifogydd yn Llys Gwenllian. Rhestrir y camau gweithredu hyn isod yn Ffigur 20.

Ffigur 20 - Tabl o'r camau i'w cymryd yn Llys Gwenllian gan CSC a Pobl.

Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
8	CSC a Pobl	Rhaid i CSC a Pobl rymuso trigolion Llys Gwenllian a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylai trigolion ddeall yn iawn pwy sy'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.	Uchel
9	CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC weithio gyda'r perchennog tir i reoli'r llif mewn ffordd sy'n creu'r risg leiaf i drigolion Llys Gwenllian.	Uchel
10	CSC	Rhaid i dîm Priffyrdd CSC gynnal archwiliad CCTV o'r system draenio priffyrdd ar hyd Llys Gwenllian i ddeall ei llwybr, ei chysylltiad â systemau draenio eraill a sicrhau y caiff unrhyw ddiffygion eu cywiro.	Uchel
11	CSC	Rhaid i Pobl sicrhau bod cofnodion cadarn o'r system ddraenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw flynyddol.	Uchel

5. Yr Ymchwiliad Llifogydd – Cae Ffynnon a Heol y Fferi

5.1 Rhagarweiniad

- 5.1.1 Bydd y rhan hon o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 Hydref 2021 yng Nghae Ffynnon a Heol y Fferi. Mae'r ddwy yn ardaloedd preswyl, yn cynnwys cyfanswm o tua 80 o gartrefi yng nghornel ogledd orllewinol Cydweli (Ffigur 21).

Ffigur 21 - Ardal ymchwilio llifogydd Cae Ffynnon a Heol y Fferi.



5.2 Data Digwyddiadau Llifogydd ac Arsylwadau Safle - Dydd Llun 4 Hydref 2021

- 5.2.1 Am 11pm ar 4 Hydref derbyniodd swyddog ar ddyletswydd tu allan i oriau CSC alwad ynghylch llifogydd difrifol yng Nghydweli. Dywedwyd wrth y tîm ar ddyletswydd gylchol i fynd yno cyn gynted ag y gallent.
- 5.2.2 Am 2:30am gofynnodd y cynghorydd lleol am fwy o fagiau tywod oherwydd pryderon am lifogydd. Nododd swyddog ar ddyletswydd CSC fod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi bod yn y safle ond eu bod wedi gadael. Gofynnwyd i'r tîm cylchol fynd yno ac archwilio'r sgriniau brigau lleol.
- 5.2.3 Am 5am nododd swyddog ar ddyletswydd CSC ar y cofnod digwyddiadau y gadawyd bagiau tywod yng Nghydweli ac y dywedodd y timau fod pob grid yn glir.

5.2.4 Am 8am rhoddodd gweithiwr Priffyrdd wybod i'r Arolygydd Priffyrdd fod rhwystr yn y sgrin brigau yng Nghae Ffynnon a bod angen mynd i'r afael â'r mater yn syth.

5.2.5 Derbyniodd yr Adran Briffyrdd fideo o'r llifogydd.




VID-20211005-WA0
002.mp4

5.2.6 Am 09:28am dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd wrth Reolwr ALIDA CSC y cafwyd digwyddiad difrifol dros nos.

5.2.7 Anfonwyd nifer o dimau gweithredol i'r safle er mwyn rheoli ymgyrch lanhau oedd yn cynnwys cael gwared â mwd, llaid a cherrig o [sgrin brigau Cae Ffynnon](#) (Ffigur 22) ac o'r briffordd a gerddi preifat (Ffigur 23). Cliriodd y tîm Priffyrdd tua 50-tunnell o gerrig o'r sgrin brigau a'r cwrs dŵr bellter byr i fyny'r afon.

Ffigur 22 - Ffotograffau o'r malurion a waredwyd ar ôl y digwyddiad llifogydd ar 4 Hydref 2021 yng Nghae Ffynnon.



5.2.8 Aeth swyddog o'r tîm ALIDA i'r safle yn syth a chychwynnodd ymchwiliad i'r digwyddiad. Darganfu fod 1 cartref wedi dioddef llifogydd mewnol, ond fod cymaint â 15 wedi dioddef llifogydd allanol o bwys.

5.2.9 Trefnwyd fod contractwr lleol yn dod i mewn i glirio unrhyw rwystrau o'r sianel i fyny'r afon uwchben Cae Ffynnon ac atgyweirio glannau'r afon lle y bu difrod.

Ffigur 23 - Ffotograffau o'r malurion a waredwyd ar ôl y digwyddiad llifogydd ar 4 Hydref 2021 ar Heol y Fferi.



5.3 Data, Ymchwiliad ac Arsylwadau Digwyddiadau Llifogydd - Dydd Mercher 20 Hydref 2021

- 5.3.1 O 8am ymlaen, derbyniwyd cwynion am ragor o lifogydd yn Heol y Fferi.
- 5.3.2 Aeth gweithwyr priffyrdd yno'n syth.
- 5.3.3 Roedd CSC wedi trefnu fod contractwr ar y safle'n barod yn clirio'r cwrs dŵr. Cliriodd y contractwr 30 tunnell arall o ddeunydd o'r sgrin brigau ac i fyny'r afon.
- 5.3.4 Aeth swyddog o'r tîm ALIDA i'r safle yn syth a chychwynnodd ymchwiliad i'r digwyddiad.

5.4 Ymchwiliadau, Arsyllwadau ac Ymweliadau Safle Dilynol

- 5.4.1 Ar ôl y digwyddiadau llifogydd ar 4 Hydref, ceisiodd trigolion lleol ddadflocio'r cwrs dŵr i fyny'r afon o Gae Ffynnon gyda rhofiau a cheibiau, fel y gwelir yn Ffigur 24, a buont yn ceisio rhwystro dŵr rhag llifo i lawr y llwybrau cerdded i Heol y Fferi.
- 5.4.2 Ar 27 Hydref aeth Peirianwyr ALIDA CSC i'r safle a chafodd sefyllfa'r cwrs dŵr yn torri ei gwerthuso.
- 5.4.3 Ar 25 Hydref datblygwyd briff ar gyfer caffael cymorth ymgynghorol i gynorthwyo gyda gwerthusiad technegol o'r digwyddiad llifogydd.
- 5.4.4 Ar 1 Tachwedd bu'r Rheolwr ALIDA a'r Pennaeth Gwasanaeth yn y safle i siarad â thrigolion a gweld y sefyllfa drostynt eu hunain.
- 5.4.5 Ar 19 Tachwedd, cafodd y Rheolwr ALIDA a'r Cynghorydd Lleol gyfarfod ar y safle.
- 5.4.6 Ar 19 Tachwedd eto, cyfarfu staff CSC gyda'r contractwr i drafod rhagor o weithredu ac ymyriadau.
- 5.4.7 Ar 15 Rhagfyr cynhaliwyd rhith gyfarfod cymunedol/cyhoeddus ar-lein.
- 5.4.8 Ym mis Ionawr 2022 ailadroddodd ail gontractwr, gan ddefnyddio peiriant mwy, y gwaith brys, bu'n ail-broffilio'r sianelau ac yn cryfhau'r glannau lle roeddent wedi torri ynghynt.

Ffigur 24 - Llun o drigolion Cydweli yn dadflocio cwrs dŵr Cae Ffynnon i'r gogledd o Gae Ffynnon. Yn y llun, mae'r dŵr yn llifo i lawr y llwybr cerdded, ac mae'r cwrs dŵr lle mae'r dynion yn sefyll.



- 5.4.9 Mae'r ymchwiliad hwn yn nodi fod swyddogion CSC a rheolwyr o'r tîm ALIDA a'r tîm Priffyrdd wedi treulio a chofnodi degau lawer o oriau yn delio â chwynion, ceisiadau am wybodaeth a mynychu ymweliadau safle ynghylch y digwyddiadau ar 4 ac 20 Hydref 2021 yn Heol y Fferi. Nid yw cofnodi pob rhyngweithiad yn cynnig unrhyw fudd i'r ymchwiliad hwn ac o'r herwydd cofnodwyd y penawdau yn unig uchod.
- 5.4.10 Nodir hefyd y cafwyd yn ystod y digwyddiadau hyn nifer arwyddocaol o geisiadau a chwynion gan gwsmeriaid, a cheisiadau gan aelodau, llawer ohonynt yn dyblygu ei gilydd. Cafodd y ceisiadau hyn eu pasio'n aml i fwy nag un adran, gan leihau ac arafu amserau gwasanaeth.

Cam Gweithredu 12

Adran yr Amgylchedd a Thîm Cyfathrebu CSC

Cynnal adolygiad o sianelau cyfathrebu yn ystod digwyddiadau i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithlon o amser swyddogion ac adnoddau.

5.5 Hanes Llifogydd (Cae Ffynnon a Heol y Fferi)

5.5.1 Cofnodion Llifogydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)

- 5.5.1.1 Mae gan y tîm ALIDA beth gwybodaeth am lifogydd blaenorol yn y rhan hon o Gydweli. Ceir manylion y llifogydd hanesyddol a gofnodwyd yn Ffigur 25 isod.

Ffigur 25 - Hanes llifogydd mewn eiddo yn Heol y Fferi a Stryd Newydd Cydweli.

Dyddiad	Lleoliad	Achos	Sawl Eiddo a effeithiwyd
27 Tachwedd 2002	Heol y Fferi	Sgrin brigau wedi Blocio	Dim cofnod
21 Ionawr 2013	Heol y Fferi a Stryd Newydd	Sgrin brigau wedi Blocio	4
13 Medi 2015	Heol y Fferi	Dŵr Ffo mewn Cae	Anhysbys
3 Ionawr 2016	Heol y Fferi	Dim cofnod	2

5.5.2 Cofnodion Llifogydd Tîm Priffyrdd CSC

- 5.5.2.1 Nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn yr ardal hon.

5.5.3 Cofnodion Llifogydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

- 5.5.3.1 Dangosodd gwiriad o ddigwyddiadau yn y 5 mlynedd diwethaf y cafwyd pum rhwystr gweithredol ond dim digwyddiadau llifogydd.

5.6 Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Cae Ffynnon a Heol y Fferi

5.6.1 Cyrsiau Dŵr Cyffredin

- 5.6.1.1 Mae un cwrs dŵr cyffredin di-enw yn yr ardal hon sy'n rhedeg o Fferm Pen-lan-isaf i'r de i Gae Ffynnon a Heol y Fferi, dros bellter o 1.3km. Mae'r cwrs dŵr yn dechrau yn sianel agored, caiff ei sianelu yn y canol, ac yna mae'n rhedeg mewn sianel agored cyn gollwng yn y pendraw i'r morfa heli yn aber y Gwendraeth Fach . Graddiant cyfartalog y cwrs dŵr yw 1 mewn 10, sy'n serth iawn. O'r herwydd, mae cyflymder llif y cwrs dŵr yn llawer uwch nag y byddech yn ei weld fel arfer mewn cwrs dŵr o'r maint yma. Mae hyn yn ei dro, ynghyd â daeareg yr ardal, yn arwain at lefelau uchel o erydiad, cludo ac yn y pendraw dyddodi deunyddiau sy'n creu rhwystrau yn y cwrs dŵr. Darlunnir dalgylch y cwrs dŵr hwn yn Ffigur 26.

Ffigur 26 - Map o'r cwrs dŵr cyffredin di-enw yng Nghae Ffynnon a Heol y Fferi. Labelwyd A.



- 5.6.1.2 Mae'r cwrs dŵr yn draenio ardal o tua 63.7 hecтар (Dalgylch A), ac mae 95% ohono yn dir amaethyddol a chaeau. Mae Dalgylch B yn draenio i lôn yng nghefn Cae Ffynnon. Darlunnir hydroleg y dalgylchoedd hyn yn Ffigur 27 isod.

Ffigur 27 - Hydroleg Dalgylchoedd Cae Ffynnon (Amey Consulting, Mawrth 2022).

Cyfnod Ail-ddigwydd (Blynnyddoedd)	Dalgylch A (63.7ha)		Dalgylch B (10.9 ha)	
	Llif Brig (l/e)	Cyfanswm Cyfaint (m ³)	Llif Brig (l/e)	Cyfanswm Cyfaint (m ³)
5	698	7241	120	1026
10	846	8697	146	1272
30	1195	12102	207	1872
50	1384	13996	240	2187
100	1634	16403	283	2616

5.6.1.3 I lawr yr afon o [Sgrin Brigau Cae Ffynnon](#), (gweler adran 5.6.2.1) ceir darn tua 265 metr o hyd o gwrs dŵr preifat sydd wedi'i sianelu, fel y dangosir yn Ffigur 28. Mae'r darn yma o'r geuffos yn bibell goncrit, 750mm o ddiamedr, a gafodd ei harchwilio ddiwethaf ar 24 Medi 2018. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion na phryderon yn ystod yr archwiliad hwnnw a bernir fod y geuffos mewn cyflwr da.

Ffigur 28 - Darn preifat y cwrs dŵr a geuffoswyd yng Nghae Ffynnon Cydweli.



5.6.1.4 Yn ogystal â'r uchod, mae darnau isaf y cwrs dŵr cyffredin hefyd mewn dwylo preifat, fel y dangosir yn Ffigur 29 isod. Mae dau ddarn lle y caiff y cwrs dŵr ei sianelu mewn ceuffos 900mm o ddiamedr. Nid yw cyflwr y geuffos yn hysbys adeg llunio'r adroddiad hwn, ond mae'r dadansoddiad dalgylch yn awgrymu fod pibell 900mm o ddiamedr yn faint digonol i ddal a chludo llif llifogydd i'r safon angenrheidiol sef 1 mewn 100 (1% AEP).

- 5.6.1.5 Rhwng y ddau ddarn o'r cwrs dŵr preifat a sianelwyd, mae darn agored o gwrs dŵr preifat fel y gwelir yn Ffigur 29 isod. Barnodd y gwerthusiad a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn na fydd llif llifogydd yn cael eu cynnal yn y sianel agored hon.

Ffigur 29 - Ffotograffau o ddarnau preifat cwrs dŵr yn 68 Heol y Fferi, Cydweli.



- 5.6.1.6 Hawliau a Chyfrifoldebau Glannau Afonydd Cyrsiâu Dŵr Cyffredin

- 5.6.1.6.1 Ystyrir y bobl sy'n berchen ar y tir sydd gyfagos i'r cwrs dŵr neu dir y mae'r cwrs dŵr yn llifo trwyddo, naill ai mewn sianel agored neu mewn ceuffos, yn berchnogion tir glannau afonydd. Mae nifer o berchnogion tir glannau afonydd ar hyd y cwrs dŵr cyffredin hwn. Mae gan bob perchennog tir glannau afonydd [hawliau a chyfrifoldebau](#) i reoli'r cwrs dŵr.
- 5.6.1.6.2 Perchnogion darnau uchaf y cwrs dŵr yw'r rhai sy'n berchen ar y tir hyd at ganol y cwrs dŵr, gan gynnwys y glannau. Ni chafodd mwyafrif y tir yn y darn coediog i'r gogledd o Gae Ffynnon ei gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM.
- 5.6.1.6.3 Mae'n werth nodi, os na chafodd tir ei gofrestru, nad yw hynny'n golygu nad oes perchennog arno. Mae tir heb ei gofrestru yn dal yn dir preifat, ac nid CSC yw'r gwarcheidwad diofyn os na chaiff y tir hwnnw ei reoli'n briodol.

Cam Gweithredu 13

Tîm ALIDA CSC

Parhau i ymchwilio i berchnogaeth y tir i'r gogledd o Gae Ffynnon a datblygu cyfres o ddewisiadau tymor byr, canolig a thymor hir er mwyn rheoli'r risg llifogydd yn yr ardal yn well.

Cam Gweithredu 14

Tîm ALIDA CSC

Cynnal archwiliad CCTV o ddarnau preifat y cwrs dŵr yn Heol y Fferi.

Cam Gweithredu 15

Tîm ALIDA CSC

Sicrhau bod perchnogion tir glannau afonydd yn gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

5.6.2 Asedau Rheoli Risg Llifogydd CSC

5.6.2.1 Sgrin Brigau Cae Ffynnon


- 5.6.2.1.1 Yn y darn o Gae Ffynnon sydd i fyny'r afon - yn y man lle mae'r cwrs dŵr cyffredin yn troi o fod yn gwrs dŵr i fod yn gwrs dŵr wedi'i sianelu - ceir sgrin brigau (Ffigur 30). Pwrpas yr adeiladwaith hwn yw atal darnau mawr o falurion rhag mynd i mewn i'r geuffos a chreu rhwystr yno.

Ffigur 30 - Ar y chwith, y sgrin brigau newydd fel y mae heddiw, ar y sgrin, yr hen sgrin a newidiwyd yn 2014.



- 5.6.2.1.2 Cafodd sgrin brigau Cae Ffynnon ei uwchraddio yn 2014/2015, fel rhan o gynllun gwaith cyfalaf gwerth £70,000 gan ALIDA CSC yn yr ardal.
- 5.6.2.1.3 Daeth gwerthusiad a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn i'r casgliad fod yr ased hwn yn gweddu i'w bwrpas, ac y gall reoli llifau llifogydd hyd at y digwyddiad tebygolrwydd llifogydd blynyddol 1 mewn 100-mlynedd (1% AEP) (Ffigur 31). Mae'r ffigur isod yn dangos yr allbynnau modelu llifogydd ac nid yw'n dangos unrhyw lifogydd tebygol wrth fodelu'r digwyddiad storm hwn.

Ffigur 31 - Allbwn modelu hydrologig digwyddiad llifogydd 1 mewn 100 mlynedd (0.1% AEP) - yn dangos dim gorlwyth yn sgrin brigau Cae Ffynnon (Amey Consulting, Mawrth 2022).



5.6.2.1.4 Mae gan yr ased hwn raglen cynnal a chadw rheolaidd a nodir isod yn Ffigur 32.

Ffigur 32 - Y gwaith cynnal a chadw rheolaidd a wneir yn sgrin brigau Cae Ffynnon.


Math o Gynnal a Chadw	Amllder	Archwiliad Diwethaf	Archwiliad Nesaf
Clirio malurion o'r sgrin	Wythnosol yn y gaeaf; misol yn yr haf	8 Awst 2022	Medi 2022
Clirio mecanyddol neu lanhau trylwyr	Ad-hoc pan fo angen	27 Hydref 2021	Amh.
Archwiliad Adeiladweithiol Llawn	Blynyddol	14 Gorffennaf 2022	Haf 2023
Asesiad Risg i Ddiogelwch y Cyhoedd (PRSA)	5-mlynedd neu pan wneir newidiadau arwyddocaol i'r adeiladwaith	17 Medi 2021	2026

5.6.2.2 Cwrs Dŵr Cyffredin wedi'i Sianelu

5.6.2.2.1 Pan mae'r cwrs dŵr yn cael ei sianelu islaw'r briffordd fabwysiedig, CSC fel y tîm Priffyrdd yw'r perchnogion tir glannau afonydd.

- 5.6.2.2.2 O'r herwydd, mae tua 145 metr o'r cwrs dŵr, islaw Cae Ffynnon, a welir yn Ffigur 33, yn gyfrifoldeb CSC fel y tîm Priffyrdd.

Ffigur 33 - Y darn o gwrs dŵr Cae Ffynnon sy'n eiddo i CSC.



- 5.6.2.2.3 Mae'r darn hwn o'r geuffos yn goncrit ac yn 750mm o ddiamedr. Cafodd ei harchwilio ddiwethaf ar 24 Medi 2018. Ni nodwyd unrhyw faterion na diffygion.
- 5.6.2.2.4 Ar waelod Cae Ffynnon, mae'r cwrs dŵr wedi'i sianelu yn fforchio a cheir cymysgedd o feintiau pibelli yn amrywio o 450mm i 900mm. Dangosodd yr arolwg o'r geuffos yn 2018 fod darn o'r geuffos wedi'i ddifrodi a bod darnau o'r geuffos wedi torri ynghlwm yn yr adeiladwaith.

Cam Gweithredu 16

Adran yr Amgylchedd CSC

Gwella cyfathrebu a gwaith cofnodi diffygion rhwng timau ac is-adrannau yn CSC.

- 5.6.2.2.5 Dangosodd y gwerthusiad a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn y gall y darn fforchol reoli llifau llifogydd i fyny at y digwyddiad tebygolrwydd llifogydd blynyddol 1 mewn 50-mlynedd (2% AEP). Er mwyn codi hynny i fyny i'r safon 1 mewn 100-mlynedd (1% AEP) mae angen cynyddu maint y ceuffosydd a diwygio lefelau gwrthdro.

Cam Gweithredu 17

Tîm ALIDA CSC

Chwilio am arian ar gyfer gwaith dylunio ac uwchraddio manwl ar ddarn fforchog y cwrs dŵr a sianelwyd islaw Heol y Fferi.

5.6.3 Asedau Tîm Priffyrdd CSC

- 5.6.3.1 Ac eithrio'r carthffosydd wyneb, nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw arolygon na mapiau o asedau draenio'r briffordd yn yr ardal hon. Roedd archwiliad CCTV 2018, a gomisiynwyd gan y tîm ALIDA, wedi edrych ar y cwrs dŵr wedi'i sianelu, ac nid ar system ddraenio ffosdylledig y briffordd.

Cam Gweithredu 18

Adran yr Amgylchedd CSC

Megis Cam Gweithredu 5, sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draeniau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.

Cam Gweithredu 19

Tîm Priffyrdd CSC

Cynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Heol y Fferi er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.

- 5.6.3.2 Yn 2015, fel rhan o'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gosodwyd cyrbiau Beany ar hyd darn 50-metr o dai rhif 40 i rif 44 ar Heol y Fferi. Mae cyrbiau Beany yn darparu mwy o le storio ar gyfer dŵr o fewn y cwrn.
- 5.6.3.3 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar yr holl asedau priffyrdd yn adweithiol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.
- 5.6.3.4 Nid oes unrhyw gofnodion hanesyddol o ddiffygion na phroblemau yng Nghae Ffynnon nag ar systemau priffyrdd Heol y Fferi, ac o'r herwydd nid oes unrhyw gofnod o waith cynnal a chadw.

- 5.6.3.5 Yr eithriadau i hyn yw'r ffosdyllau priffyrdd hynny y cynhelir archwiliad cynnal a chadw anffurfiol blynyddol arnynt. Gwiriodd yr ymchwiliad hwn y cofnodion cynnal a chadw a chafodd y ffosdyllau yn Heol y Fferi a Chae Ffynnon eu glanhau'n achlysurol fel y dangosir isod yn Ffigur 34 ac Atodiad H.

Ffigur 34 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Cae Ffynnon a Heol y Fferi.

Blwyddyn	Lleoliad	Dyddiad	Diffygion
2016	Heol y Fferi	Meh	Dim
2018	Heol y Fferi	Medi	Dim
2019	Heol y Fferi	Tachwedd	Dim
2020	Heol y Fferi	Medi	Dim

5.6.4 System ac Asedau Draenio Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

- 5.6.4.1 Gwasanaethir Heol y Fferi gan system gyfunol DCWW a ddangosir yn Atodiad E – Map Draeniau DCWW ar gyfer .

- 5.6.4.2 Dywedodd DCWW mai gwaith cynnal a chadw adweithiol a wneir ar y system hon wrth iddynt gael gwybod am broblemau.

5.6.5 Asedau Eraill

- 5.6.5.1 Hawl Tramwy Cyhoeddus

- 5.6.5.1.1 Mae'r Hawl Tramwy Cyhoeddus a elwir yn gilffordd 11/3 yn rhedeg ar hyd Cae Ffynnon ac ymlaen i gyfeiriad gogleddol, ac yn y pendraw mae'n rhedeg yn gyfochrog â'r cwrs dŵr. Mae'r llwybr hwn yn rhedeg at fferm Pen-lan-isaf a thu hwnt. Rheolir y llwybr gan CSC, sef y tîm priffyrdd, o dan y Ddeddf Priffyrdd. Nid yw'r tir yn eiddo i CSC ond, yn debyg i risg llifogydd, mae gan yr Awdurdod rymoedd i ofalu am y gilffordd, ond nid oes dyletswydd statudol i wneud hynny. Gellir gweld y gilffordd hon ar wefan CSC [yma](#).

- 5.6.5.1.2 Yng nghefn Cae Ffynnon mae lôn, neu lwybr cerdded answyddogol, nad yw'n hawl dramwy gyhoeddus ddynodedig.

- 5.6.5.1.3 Cynhaliodd yr ymchwiliad hwn chwiliadau yng Nghofrestrfa Tir EM ynghylch y llwybr hwn ac mae'r canlyniadau'n dangos fod y rhan fwyaf o'r tir heb ei gofrestru. Mae mwy o wybodaeth am dir heb ei gofrestru ar gael [yma](#).

Cam Gweithredu 20

Trigolion a thirfeddianwyr lleol

Gwirio gweithredoedd eiddo a bod yn glir am eu ffiniau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau.

5.7 Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Cae Ffynnon a Heol y Fferi

- 5.7.1 Ar noson 4 Hydref 2021, syrthiodd 27mm o law mewn 2 awr (data MetDesk ar gyfer Heol y Fferi). Er y cafwyd llifogydd arwyddocaol, dim ond un cartref ddiodefodd lifogydd mewnol. Ar fore 20 Hydref 2021, syrthiodd 35.3mm o law mewn cyfnod o 2-awr, a'r tro hwn ni fu llifogydd mewnol mewn unrhyw gartref.
- 5.7.2 Mae'r ymchwiliad hwn yn nodi fod y llifogydd wedi achosi cryn ddifrod i eiddo. Cafodd tai allan, waliau a ffensys gerddi eu difrodi a'u dinistrio gan nerth y dŵr.
- 5.7.3 Ar y cychwyn, cafwyd nifer o ddamcaniaethau ynghylch ffynhonnell ac achos y llifogydd. Mae'n amlwg erbyn hyn y cafodd y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 ac 20 Hydref 2021 eu hachosi gan y cwrs dŵr cyffredin uwchben Cae Ffynnon yn gorlifo'i lannau. Nid oedd dŵr yn dianc o'r cwrs dŵr yn gallu ail-ymuno â'r sianel a chafodd ei wthio i lawr y llwybr cerdded yng nghefn Cae Ffynnon ac yna ymlaen i Heol y Fferi.
- 5.7.4 Nodir y cymerwyd camau i reoli'r risg y gallai'r cwrs dŵr hwn rwygo yn y tymor byr.
- 5.7.5 Nodir hefyd y cynhaliwyd ymchwiliadau hydrolegol manwl er mwyn cael gwell dealltwriaeth o risg llifogydd yn yr ardal.
- 5.7.6 Wrth ymateb i'r uchod, cynigiodd yr ymchwiliad hwn 9 cam ar gyfer y tymor byr i ganolig, ac mae 8 ohonynt ar gyfer CSC. Fe'u rhestrir isod yn Ffigur 35.

Ffigur 35 - Tabl o'r 9 cam y mae angen eu cymryd yn Heol y Fferi a Chae Ffynnon.

Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
12	Cyfathrebu CSC	Rhaid i Adran yr Amgylchedd CSC a'r tîm Cyfathrebu Cynnal adolygiad o sianelau cyfathrebu yn ystod digwyddiadau i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithlon o amser swyddogion ac adnoddau.	Canolig
13	ALIDA CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC barhau i ymchwilio perchnogaeth y tir i'r gogledd o Gae Ffynnon a datblygu cyfres o ddewisiadau tymor byr, canolig a thymor hir er mwyn rheoli'r risg llifogydd yn yr ardal yn well.	Canolig
14	ALIDA CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC gynnal archwiliad CCTV o ddarnau preifat y cwrs dŵr yn Heol y Fferi.	Uchel
15	CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC sicrhau bod perchnogion tir glannau afonydd yn gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.	Uchel
16	CSC	Rhaid i Adran yr Amgylchedd CSC wella cyfathrebu a gwaith cofnodi diffygion rhwng timau ac is-adrannau yn CSC.	Uchel
17	CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC chwilio am arian ar gyfer gwaith dylunio ac uwchraddio manwl ar ddarn fforchog y cwrs dŵr a sianelwyd islaw Heol y Fferi.	Uchel
18	CSC	Rhaid i Adran yr Amgylchedd CSC sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draeniau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.	Uchel
19	CSC	Rhaid i dîm Priffyrdd CSC gynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Heol y Fferi er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel
20	Y cyhoedd	Rhaid i drigolion a pherchnogion tir lleol wirio gweithredoedd eiddo a bod yn glir am eu ffiniau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau.	Uchel

6. Yr Ymchwiliad Llifogydd - Ger y Castell a Ger y Gwendraeth

6.1 Rhagarweiniad

- 6.1.1 Bydd y rhan hon o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 Hydref ac 20 Hydref 2021 yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell. Mae hon yn ardal breswyl o faint canolog sy'n cynnwys tua 130 o gartref yng ngogledd Cydweli (Ffigur 36).

Ffigur 36 - Ardal ymchwilio llifogydd Ger y Castell a Ger y Gwendraeth.



6.2 Data Digwyddiadau Llifogydd - Dydd Llun 4 Hydref 2021

- 6.2.1 Ar 4 Hydref, ni dderbyniodd y tîm ALIDA yn CSC unrhyw adroddiadau am lifogydd o'r ardal hon.
- 6.2.2 Fodd bynnag, cafodd tîm Cynnal a Chadw Eiddo CSC wybod am 8 cartref oedd wedi dioddef llifogydd mewnol, sef Rhifau 1-7 Ger y Gwendraeth a Rhif 32 Ger y Castell.

6.3 Data Digwyddiadau Llifogydd - 20 Hydref 2021

- 6.3.1 Ar 20 Hydref, derbyniodd y tîm ALIDA yn CSC 4 adroddiad am lifogydd.
- 6.3.2 Am 21:15pm ar 20 Hydref gofynnodd tŷ rhif 20 ar Ger y Castell am fagiau tywod.
- 6.3.3 Am 06:22am derbyniwyd adroddiad am lifogydd rhwng tai Rhifau 1 a 7 ar Ger y Gwendraeth.
- 6.3.4 Dywedodd GTACGC wrth swyddog ar ddyletswydd CSC fod ganddynt uned yn Ger y Gwendraeth a bod eu pwmpio yn rhwystro’r dŵr rhag mynd mewn i eiddo.

6.4 Ymchwiliadau, Arsylwadau ac Ymweliadau Safle Dilydol

- 6.4.1 Archwiliodd y tîm Priffyrdd yr holl ffosdyllau priffyrdd i sicrhau eu bod yn glir.
- 6.4.2 Trefnodd tîm Cynnal a Chadw Eiddo CSC fod is-contractwr yn mynd i dai Rhifau 1-7 Ger y Gwendraeth a chlirio’r system ddraenio.
- 6.4.3 Hefyd, rhoddwyd peiriannau dadleithio i 1-7 Ger y Gwendraeth a gwnaed gwaith atgyweirio ar ddrysau a lloriau a ddifrodwyd. Gosodwyd aco-ddraeniau er mwyn rheoli’r dŵr wyneb.

Ffigur 37 - Ffotograff o’r eiddo yn Ger y Gwendraeth a ddiodeffodd lifogydd.



- 6.4.4 Sylwodd y Goruchwylydd Cynnal a Chadw Eiddo fod tai Rhifau 1-7 ar Ger y Gwendraeth yn gorwedd islaw lefel yr heol. O’r herwydd mae dŵr o’r briffordd yn llifo lawr i’r anheddau ac yn achosi llifogydd.
- 6.4.5 Yn Rhif 32 Ger y Castell trefnodd y tîm Cynnal a Chadw Eiddo fod contractwr yn dod i glirio’r draeniau preifat oedd yn llawn dail a malurion. Yna aethant ati i osod aco-ddraeniau yng

nghefn yr eiddo a darparu peiriannau dadleithio. Cafodd waliau eu hail-blastro a gosodwyd drysau a sgyrtin newydd yn lle rhai a ddifrodwyd.

Ffigur 38 - Ffotograff o 32 Ger y Castell a ddioddefodd lifogydd mewnol o'r cefn.



6.4.6 Nodwyd fod Rhif 32 Ger y Castell yn sefyll tua chornel waelod yr ystad a'i fod yn is nag eiddo cyfagos. Nid oes cynlluniau manwl o'r draeniau sy'n gwasanaethu'r ardal hon ar gael ar hyn o bryd.

6.5 Hanes Llifogydd

6.5.1 Cofnodion Llifogydd Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)

6.5.1.1 Nid oes gan dîm ALIDA CSC unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn y lleoliad hwn.

6.5.2 Cofnodion Llifogydd Tîm Priffyrdd CSC

6.5.2.1 Nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn y lleoliad hwn.

6.5.3 Cofnodion Llifogydd Tîm Eiddo CSC

6.5.3.1 Nid oes gan y Timau Cynnal a Chadw Tai ac Eiddo unrhyw gofnodion o lifogydd blaenorol.

6.5.4 Cofnodion Llifogydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

6.5.4.1 Mae gwiriad o ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt dros y 5 mlynedd diwethaf wedi dangos manylion 18 rhwystr ac 1 digwyddiad llifogydd yn Ger y Castell, a 4 rhwystr a dim llifogydd yn Ger y Gwendraeth.

Cam Gweithredu 21

Adran Gymunedau CSC

Grymuso trigolion i roi gwybod i'r adrannau a'r sefydliadau perthnasol am lifogydd a phroblemau draeniau fel bod y sefydliadau hynny yn gwybod amdanynt.

6.6 Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Ger y Gwendraeth a Ger y Castell

6.6.1 Cyrsiau Dŵr Cyffredin

6.6.1.1 Nid oes unrhyw gyrsiau dŵr cyffredin yn Ger y Castell a Ger y Gwendraeth a'r ardal.

6.6.2 Asedau Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)

6.6.2.1 Mae gan dîm ALIDA CSC asedau amddiffyn rhag llifogydd yn yr ardal.

6.6.3 Asedau Tîm Priffyrdd CSC

6.6.3.1 Ac eithrio'r ffosdyllau dŵr wyneb, nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw arolygon na mapiau o'r asedau draenio priffyrdd yn yr ardal hon.

Cam Gweithredu 22

Tîm Priffyrdd CSC

Cynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.

- 6.6.3.2 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar yr holl asedau priffyrdd yn adweithiol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.
- 6.6.3.3 Nid oes unrhyw gofnodion hanesyddol o ddiffygion na phroblemau ar systemau priffyrdd Ger y Castell na Ger y Gwendraeth, ac o'r herwydd nid oes unrhyw gofnod o waith cynnal a chadw.
- 6.6.3.4 Yr eithriadau i hyn yw'r ffosdyllau priffyrdd hynny y cynhelir archwiliad cynnal a chadw anffurfiol blynyddol arnynt. Gwiriodd yr ymchwiliad hwn y cofnodion cynnal a chadw a chafodd y ffosdyllau eu glanhau'n achlysurol fel y dangosir isod yn Ffigur 39 ac Atodiad Atodiad B.

Ffigur 39 - Cofnodion cynnal a chadw ffosdyllau priffyrdd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.

Blwyddyn	Lleoliad	Dyddiad	Diffygion
2015	Ger y Castell	Hydref	Dim
2015	Ger y Gwendraeth	Hydref	Dim
2017	Ger y Gwendraeth	Medi	Dim
2017	Ger y Castell	Medi	Dim
2021	Ger y Gwendraeth	Tachwedd	25-50% llaid
2021	Ger y Castell	Tachwedd	25-100% llaid

6.6.4 Asedau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

- 6.6.4.1 Gellir gweld map o asedau DCWW yn Ger y Castell a Ger y Gwendraeth yn Atodiadau F a G. Mae'r mapiau hyn yn dangos y gwasanaethir yr ardal gan system gyfunol DCWW.

- 6.6.4.2 Dywedodd DCWW mai gwaith cynnal a chadw adweithiol a wneir ar y system hon wrth iddynt gael gwybod am broblemau.

6.6.5 Cyfrifoldebau Adran Gymunedau CSC

- 6.6.5.1 Adran Gymunedau CSC yw perchnogion a landlordiaid llawer o eiddo yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell, fel y dangosir yn las yn Ffigur 40. Gan mai nhw yw'r perchnogion tir, mae ganddynt gyd gyfrifoldeb am y system ddraenio.
- 6.6.5.2 Nid oes gan CSC unrhyw arolygon na mapiau o'r system ddraenio yn yr ardal hon.
- 6.6.5.3 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar holl asedau Cymunedau CSC yn adweithol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.

Cam Gweithredu 23

Adran Gymunedau CSC

Cydweithio gyda Thîm Priffyrdd CSC i gynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.

Cam Gweithredu 24

Cyfarwyddwr CSC

Cytuno adran/sefydliad arweiniol i reoli a goruchwylio risg llifogydd yn yr ardal hon a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i gofnodi a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am risg llifogydd.

Ffigur 40 - Map yn dangos yr eiddo sydd ym mherchnogaeth CSC (lliw glas) yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.



6.7 Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Ger y Gwendraeth a Ger y Castell

- 6.7.1 Ar noson 4 Hydref 2021, syrthiodd 20.3mm o law mewn 2 awr (data MetDesk ar gyfer Clos yr Helyg gerllaw). Cafwyd llifogydd arwyddocaol a dioddefodd 8 cartref lifogydd mewnol.
- 6.7.2 Ar fore 20 Hydref 2021, syrthiodd 41mm o law mewn cyfnod o 2-awr (data MetDesk ar gyfer Clos yr Helyg gerllaw), a dioddefodd yr un 8 cartref lifogydd eto.
- 6.7.3 Er bod nifer o asiantaethau wedi bod yn yr 16 cartref a ddioddefodd lifogydd yn y ddau ddigwyddiad, mae'r ymchwiliad yn nodi nad oedd unrhyw un asiantaeth neu adran wedi cydlynu'r ymateb.
- 6.7.4 Mae'r ymchwiliad hwn yn barnu nad oedd y systemau draenio dŵr wyneb yn yr ardal wedi gallu ymdopi â faint o law a syrthiodd. Cadarnheir hynny'n rhannol gan y wybodaeth am y ffosdwl priffyrdd yn Ffigur 39, sy'n dangos diffyg cynnal a chadw diweddar a lefelau llaid allai fod wedi gwaethygu'r sefyllfa. Nodwn eto fod llawer o'r draeniau a'r ffosdyllau yn llawn dail.
- 6.7.5 Yn Rhifau 1-7 Ger y Gwendraeth, mae'r ymchwiliad yn barnu fod llif dŵr o'r briffordd ac o eiddo cyfagos yn cael effaith andwyol ar risg llifogydd yr eiddo hwn.

- 6.7.6 Fodd bynnag, mae'r ymchwiliad hwn yn nodi nad oes unrhyw wybodaeth am y draeniau tanddaearol sydd ar gael, ac o'r herwydd mae angen mwy o waith ymchwil i ddeall yn llawn beth oedd prif achos y llifogydd.
- 6.7.7 Hefyd, mae angen archwilio ymhellach y systemau draenio priffyrdd a dŵr wyneb er mwyn deall beth achosodd y llifogydd yn Rhif 32 Ger y Castell.
- 6.7.8 O ystyried yr uchod, mae'r ymchwiliad wedi cynnig 4 cam y dylai CSC eu cymryd yn y tymor byr i ganolog. Fe'u rhestrir yn Ffigur 41 isod.

Ffigur 41 - Tabl o'r camau y mae angen i'r ARhRau perthnasol eu cymryd yn Ger y Gwendraeth a Ger y Castell.

Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
21	Cymunedau CSC	Rhaid i Adran Gymunedau rymuso trigolion i roi gwybod i'r adrannau a'r sefydliadau perthnasol am lifogydd a problemau draeniau fel bod y sefydliadau hynny yn gwybod amdanynt.	Uchel
22	Tîm Priffyrdd	Rhaid i dîm Priffyrdd CSC i gynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel
23	Cymunedau CSC	Rhaid i Adran Gymunedau CSC gydweithio gyda Thîm Priffyrdd CSC gynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel
24	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd CSC	Rhaid i Gyfarwyddwr CSC gytuno adran/sefydliad arweiniol i reoli a goruchwyllo risg llifogydd yn yr ardal hon a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i gofnodi a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am risg llifogydd.	Uchel

7. Yr Ymchwiliad Llifogydd - Ystad Ddiwydiannol Cydweli

7.1 Rhagarweiniad

7.1.1 Bydd y rhan hon o'r Adroddiad yn edrych yn benodol ar y llifogydd a ddigwyddodd ar 4 Hydref ac 20 Hydref 2021 yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli.

7.2 Data Digwyddiadau Llifogydd – 4 Hydref 2021

7.2.1 Ar 4 Hydref ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau am lifogydd ar gyfer Ystad Ddiwydiannol Cydweli.

7.2.2 Ar 7 Hydref cofnododd Travis Perkins ddigwyddiad gyda Thîm Gwasanaethau Eiddo CSC. Rhoesant wybod fod cryn lifogydd ar eu iard, ond na fu unrhyw lifogydd mewnol.

7.3 Data Digwyddiadau Llifogydd – 20 Hydref 2021

7.3.1 Am 10:29 derbyniwyd e-bost oddi wrth Travis Perkins yn cynnwys lluniau o'r llifogydd. Fe'u dangosir yn Ffigur 42.

7.3.2 Derbyniodd Tîm Eiddo CSC alwad oddi wrth Uned-3 i ddweud fod y draeniau'n gorlenwi a'u bod yn creu llifogydd.

7.3.3 Ar 26 Hydref bu contractwyr Gwasanaethau Eiddo CSC yn pwmpio gormodedd dŵr i ffwrdd.

Ffigur 42 - Ffotograffau o'r llifogydd yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli ar 20 Hydref 2021.



7.4 Ymweliadau ac Arsylwadau Safle Dilysol

- 7.4.1 Ar 18 Hydref bu swyddogion o dîm ALIDA CSC yn y safle i asesu'r draeniau yn yr ardal.
- 7.4.2 Cyfarfu swyddogion ALIDA CSC â rheolwr Travis Perkins Cydweli a ddangosodd ardal y pwll i'r gogledd o'r iard dan ddŵr iddyn nhw, sydd ddim yn draenio dŵr i ffwrdd yn effeithiol. Hefyd, gwelodd y swyddogion fod y ffosdyllau ffordd yn llawn llaid a cherrig.
- 7.4.3 Yn ogystal ag ymweliadau safle, cynhaliwyd arolwg pendesg o gynlluniau draeniau a'r hanes cynllunio diweddar. Mae hynny'n awgrymu y gallai adeiladu datblygiad newydd yn gyfagos i Travis Perkins fod wedi arwain at gollu draeniau dŵr wyneb oedd wedi bod yn ddefnyddiol i'r ystad cyn hynny.

7.5 Hanes Llifogydd

7.5.1 Cofnodion Llifogydd y Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir (ALIDA)

7.5.1.1 Nid oes gan y tîm ALIDA unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn y lleoliad hwn.

7.5.2 Cofnodion Llifogydd Tîm Priffyrdd CSC

7.5.2.1 Nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn y lleoliad hwn.

7.5.3 Cofnodion Llifogydd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

7.5.3.1 Nid oes gan DCWW unrhyw gofnodion hanesyddol o lifogydd yn y lleoliad hwn.

7.5.4 Cofnodion Llifogydd Tîm Adfywio CSC

7.5.4.1 Mae gan Wasanaethau Eiddo CSC – sy'n rheoli unedau 2 a 3, a'r briffordd yn y Parc Diwydiannol (Ffigur 44), gofnodion o lifogydd a ddigwyddodd ym mis Mawrth 2021. Ar ôl y digwyddiad hwn, rhoddodd contractwr draeniau gyngor ar ddatrys y problemau ond hyd yn hyn ni weithredwyd ar y cyngor hwnnw.

7.5.4.2 Awgrymwyd fod adeiladu uned breifat wedi creu newid i'r draeniad oedd yn gwasanaethu'r ystad.

Cam Gweithredu 25

Rheoli Stadau CSC

Ymchwilio'r honiadau y cafodd draeniau eu difrodi neu eu colli a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w hail-osod yn ôl y galw.

7.6 Rhwydweithiau ac Asedau Draenio – Ystad Ddiwydiannol Cydweli

7.6.1 Asedau Rheoli Risg Llifogydd CSC

7.6.1.1 Nid oes gan y tîm ALIDA unrhyw asedau rheoli risg llifogydd yn yr ardal hon.


7.6.2 Asedau Tîm Priffyrdd CSC

7.6.2.1 Nid oes gan y tîm Priffyrdd unrhyw asedau yn yr ystad ddiwydiannol.

7.6.3 Asedau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)

7.6.3.1 Gwasanaethir yr ystad ddiwydiannol gan garthffos dŵr brwnt DCWW a charthffos dŵr wyneb breifat fel y gwelir yn Ffigur 43.

Ffigur 43 - Mapiau o'r garthffos dŵr wyneb breifat yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli.



7.6.4 Asedau Ystadau CSC

7.6.4.1 Mae Tîm Ystadau CSC yn rheoli unedau 2 a 3 a heol yr ystad ddiwydiannol, fel y gwelir yn Ffigur 44.

7.6.4.2 Ac eithrio data DCWW, nid oes unrhyw arolygon na mapiau o'r systemau draenio yn yr ardal hon.

- 7.6.4.3 Mae systemau draenio preifat yn gyfrifoldeb y sawl sy'n elwa ohonynt neu'r perchnogion tir, ac o'r herwydd gan dîm Ystadau CSC y mae'r prif gyfrifoldeb am ddraeniau'r safle. Os yw unrhyw unedau preifat eraill yn elwa o'r system, gallant hwythau fod yn gyfrifol am ganran o'i chynnal a chadw.

Cam Gweithredu 26

Rheoli Stadau CSC

Cynnal archwiliad CCTV systemau draenio'r ystad ddiwydiannol a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.


Cam Gweithredu 27

Rheoli Stadau CSC

Defnyddio'r archwiliad CCTV i ddatblygu cynllun rheoli draeniau ar gyfer yr ystad, gan sicrhau bod pob tenant a busnes preifat yn gwybod am eu draeniau a'u cyfrifoldebau.

- 7.6.4.4 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar holl asedau diwydiannol neu fusnes CSC yn adweithol. Caiff asedau eu harchwilio a'u hatgyweirio wrth i faterion gael eu hamlygu.

Ffigur 44 - Ystad Ddiwydiannol Cydweli a'r ardal a reolir gan Wasanaethau Eiddo CSC (dangosir mewn pinc).



7.7 Canfyddiadau a Chasgliadau'r Ymchwiliad – Ystad Ddiwydiannol Cydweli

- 7.7.1 Ar noson 4 Hydref 2021, syrthiodd 20.3mm o law mewn 2 awr (data MetDesk ar gyfer Clos yr Helyg gerllaw). Ar 7 Hydref, rhoddodd busnesau wybod am broblemau llifogydd. Ar fore 20 Hydref 2021, syrthiodd 32.9mm o law mewn awr a 41mm dros gyfnod o 2-awr (data MetDesk, Clos yr Helyg). Y tro hwn rhoddodd 3 busnes wybod eu bod wedi dioddef llifogydd mewnol.
- 7.7.2 Mae'r ymchwiliad hwn yn barnu fod diffyg rheolaeth strategol ar y parc diwydiannol o ran ei ddraeniad. Nid oes unrhyw wybodaeth am y systemau draenio ac eithrio'r hyn sydd ar gael yng nghofnodion DCWW, ac mae diffyg arbenigedd ar ddraeniad a phrinder meddwl ar y cyd o ran ei reoli.
- 7.7.3 Nodwn fod yna ymwybyddiaeth fod rhan o'r draeniau wedi cael ei newid, ond hyd yn hyn ni chafodd hynny ei ymchwilio na'i ddatrys.
- 7.7.4 Cynigiodd yr ymchwiliad y dylai Adran Ystadau CSC gymryd 3 cham yn y tymor byr i reoli risg llifogydd yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli. Fe'u rhestrir isod yn Ffigur 45.

Ffigur 45 - Y camau y mae angen i Adran Ystadau CSC eu cymryd yn Ystad Ddiwydiannol Cydweli.

Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
25	Stadau CSC	Rhaid i Ystadau CSC ymchwilio'r honiadau y cafodd draeniau eu difrodi neu eu colli a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w hail-osod yn ôl y galw.	Uchel
26	Stadau CSC	Rhaid i Ystadau CSC gynnal archwiliad CCTV systemau draenio'r ystad ddiwydiannol a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel
27	Stadau CSC	Rhaid i Ystadau CSC ddefnyddio'r archwiliad CCTV i ddatblygu cynllun rheoli draeniau ar gyfer yr ystad, gan sicrhau bod pob tenant a busnes preifat yn gwybod am eu draeniau a'u cyfrifoldebau.	Uchel

8. Canfyddiadau Strategol yr Ymchwiliad

8.1 Canfyddiadau

- 8.1.1 O'r adroddiadau a dderbyniwyd a'r wybodaeth a gasglwyd, daethom i'r casgliad, yn ystod y 2 ddigwyddiad llifogydd yng Nghydsweli ym mis Hydref 2021, fod 41 annedd a 7 busnes wedi dioddef llifogydd mewnol. Yn yr ardaloedd yr edrychodd yr adroddiad hwn arnynt yr oedd y nifer uchaf o ddigwyddiadau llifogydd, a chafwyd ambell ddigwyddiad mewn ardaloedd eraill.
- 8.1.2 Or wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r adroddiad hwn daethom i'r casgliad mai prif ffynonellau'r llifogydd oedd:
- a) Cwrs Dŵr Cyffredin
 - b) Dŵr wyneb
 - c) Systemau draenio priffyrdd yr Awdurdod
 - d) Systemau draenio dŵr wyneb preifat
 - e) Systemau draenio DCWW
 - f) Merddwr
- 8.1.3 Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu y dioddefodd Cydweli lifogydd o brif afonydd yn ystod y digwyddiadau llifogydd hyn.
- 8.1.4 Yr ARhRau arweiniol ar gyfer rheoli risg llifogydd yng Nghydsweli yw CSC, sef yr ALLIA, CSC sef yr Awdurdod Priffyrdd, a DCWW.
- 8.1.5 Nodwn hefyd fod gan Pobl a CSC fel landlordiaid tai cymdeithasol, a CSC fel landlord masnachol, rôl arwyddocaol i'w chwarae yn rheoli risg llifogydd.
- 8.1.6 Dioddefodd Cydweli nifer o ddigwyddiadau llifogydd yn hanesyddol a, gyda newid hinsawdd, mae potensial ar gyfer mwy o lifogydd. Fodd bynnag, dylai trigolion ac arweinyddion cymunedol gydnabod nad mater sy'n effeithio ar Gydsweli yn unig yw hwn. Gwelodd nifer o gymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin, ac yn wir ledled Cymru, nifer o ddigwyddiadau llifogydd arwyddocaol dros y misoedd a'r blynnyddoedd diwethaf, a chafodd nifer cynyddol o eiddo eu heffeithio.
- 8.1.7 Mae rhagdybiaeth fod yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am unrhyw faterion rheoli risg llifogydd allai godi, ac nid yw trigolion yn ymwybodol o'r rôl sydd ganddynt hwy ac ARhRau eraill yn rheoli eu risg llifogydd.

- 8.1.8 Bu gwytnwch y gymuned leol a'r cyfathrebu gyda hi yn rhagorol ers y llifogydd ym mis Hydref. Fodd bynnag, er gwaetha'r hanes o lifogydd, cyfyngedig yw gwybodaeth trigolion am eu risg llifogydd bersonol, eu cyfrifoldeb i reoli'r risg honno a chyfrifoldebau'r ARhRau perthnasol.
- 8.1.9 O ystyried yr uchod, mae'r ymchwiliad hwn yn argymhell y dylai CSC, mewn partneriaeth gyda'r aelod lleol ac ARhRau eraill, gynnal sesiwn ymwybyddiaeth gymunedol. Dylai sesiwn o'r fath geisio rhoi gwybod i drigolion lleol am eu risg llifogydd, beth allant ei wneud i reoli'r risg honno a pha rolau mae'r ARhRau perthnasol yn eu chwarae.

Cam Gweithredu 28

Tîm ALIGA CSC

Datblygu a chynnal sesiwn ymwybyddiaeth risg llifogydd gymunedol. Dylai sesiwn o'r fath geisio rhoi gwybod i drigolion lleol am eu risg llifogydd, beth allant ei wneud i reoli'r risg honno a pha rolau mae'r ARhRau perthnasol yn eu chwarae.


Cam Gweithredu Rhif	Perchennog	Manylion	Blaenoriaeth
28	CSC	Rhaid i dîm ALIDA CSC ddatblygu a chynnal sesiwn ymwybyddiaeth risg llifogydd gymunedol. Dylai sesiwn o'r fath geisio rhoi gwybod i drigolion lleol am eu risg llifogydd, beth allant ei wneud i reoli'r risg honno a pha rolau mae'r ARhRau perthnasol yn eu chwarae.	Canolig

9. Camau Gweithredu o'r Ymchwiliad (x28)


Cam Gweithredu Rhif	Lleoliad	Adran Berchnogol	Perchennog (Enw)	Manylion	Blaenoriaeth	Dyddiadau cau (I'w cytuno gyda'r rheolwyr perthnasol)
1	Clos yr Helyg	CSC a Pobl	Ben Kathrens	Grymuso trigolion Clos yr Helyg a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylai trigolion ddeall yn iawn pwy sy'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.	Uchel	Ion 23
2	Clos yr Helyg	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Cynnal archwiliad draenio CCTV o'r geuffos ym Mharc Pendre.	Uchel	Hyd 22
3	Clos yr Helyg	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Sicrhau bod cwrs dŵr Clos yr Helyg yn cael ei reoli byth bythoedd.	Uchel	Wed'i wneud
4	Clos yr Helyg	CSC (Priffyrdd)	Stephen Pilliner	Cynnal archwiliad CCTV o system ddraenio'r priffyrdd i lawr Clos yr Helyg er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a chywiro unrhyw ddiffygion yn unol â hynny.	Uchel	Wed'i wneud
5	Clos yr Helyg	CSC (Amgylchedd)	Ben Kathrens	Sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draenau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.	Canolig	Ebrill 23
6	Clos yr Helyg	CSC (Amgylchedd)	Ben Kathrens	Datblygu dull cadarnach o astudio archwiliadau draenau CCTV a chofnodi a gweithredu ar unrhyw ddiffygion rhwng is-adrannau a thimau.	Canolig	Ebrill 23
7	Clos yr Helyg	Pobl	Pobl	Sicrhau bod cofnodion cadarn o'r system ddraenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw filenadol.	Uchel	Ion 23
8	Llys Gwenllian	CSC a Pobl	Ben Kathrens	Grymuso trigolion Llys Gwenllian a sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi gwybod am a chofnodi problemau draenio. Dylai trigolion ddeall yn iawn pwy sy'n gyfrifol am lifogydd ac â phwy y dylent gysylltu.	Uchel	Ion 23
9	Llys Gwenllian	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Gweithio gyda'r perchennog tir i reoli llif dŵr ffynnon mewn ffordd sy'n creu'r risg leiaf i drigolion Llys Gwenllian.	Canolig	Ebrill 23
10	Llys Gwenllian	CSC (Priffyrdd)	Stephen Pilliner	Cynnal archwiliad CCTV o'r system draenio priffyrdd ar hyd Llys Gwenllian i ddeall ei llwybr, ei chysylltiad â systemau draenio eraill a sicrhau y caiff unrhyw ddiffygion eu cywiro.	Uchel	Hyd 22


11	Llys Gwenllian	Pobl	Pobl	Sicrhau bod cofnodion cadarn o'r system ddraenio ar gael ac y cyflawnir rhaglen archwilio a chynnal a chadw flynyddol.	Uchel	Hyd 22
12	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (Amgylchedd a Chyfathrebu)	Ben Kathrens & Deina Hockenhall	Cynnal adolygiad o sianelau cyfathrebu yn ystod digwyddiadau i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithlon o amser swyddogion ac adnoddau.	Canolig	Ebrill 23
13	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Parhau i ymchwilio perchnogaeth y tir i'r gogledd o Gae Ffynnon a datblygu cyfres o ddeusiadau tymor byr, canolig a thymor hir er mwyn rheoli'r risg llifogydd yn yr ardal yn well.	Canolig	Ion 23
14	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Cynnal archwiliad CCTV o ddarnau preifat y cwrs dŵr yn Heol y Fferi.	Uchel	Wed'i wneud
15	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Sicrhau bod perchnogion tir glannau afonydd yn gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau.	Uchel	Wed'i wneud
16	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (Amgylchedd)	Ben Kathrens and Stephen Pilliner	Gwella cyfathrebu a gwaith cofnodi diffygion rhwng timau ac is-adrannau yn CSC.	Uchel	Ion 23
17	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Chwilio am arian ar gyfer gwaith dylunio ac uwchraddio manwl ar ddarn fforchog y cwrs dŵr a sianelwyd islaw Heol y Fferi.	Uchel	Wed'i wneud
18	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (Amgylchedd)	Ben Kathrens	Megis Cam Gweithredu 5, sicrhau trefn thematig o gynnal archwiliadau draenau ac asedau CCTV lle bynnag y bo modd, gan gofnodi'r holl seilwaith, ac nid asedau yr adran yn unig.	Uchel	Ion 23
19	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	CSC (Priffyrdd)	Stephen Pilliner	Cynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Heol y Fferi er mwyn cael gwell cofnod o asedau CSC a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel	Hyd 22
20	Heol y Fferi a Chae Ffynnon	Y cyhoedd	Public	Gwirio gweithredoedd eiddo a bod yn glir am eu ffiniau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau.	Uchel	Ion 23
21	Ger y Castell a Ger y Gwendraeth	CSC (Cymunedau)	Swyddogion Tai	Grymuso trigolion i roi gwybod i'r adrannau a'r sefydliadau perthnasol am lifogydd a problemau draenau fel bod y sefydliadau hynny yn gwybod amdanynt.	Uchel	Ion 23
22	Ger y Castell a Ger y Gwendraeth	CSC (Priffyrdd)	Stephen Pilliner	Cynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio priffyrdd ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel	Hyd 22
23	Ger y Castell a Ger y Gwendraeth	CSC (Cymunedau)	TBC	Cydweithio gyda Thîm Priffyrdd CSC i gynnal archwiliad CCTV o'r systemau draenio ar hyd Ger y Gwendraeth a Ger y Castell a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel	Hyd 22


24	Ger y Castell a Ger y Gwendraeth	CSC (Cyfarwyddwr)	Ainsley Williams	Cytuno adran/sefydliad arweiniol i reoli a goruchwylio risg llifogydd yn yr ardal hon a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ar waith i gofnodi a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am risg llifogydd.	Uchel	Rhag 23
25	Stad Ddiwydiannol Cydweli	CSC (Stadau)	Steve Morgan	Ymchwilio'r honiadau y cafodd draeniau eu difrodi neu eu colli a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w hail-osod yn ôl y galw.	Uchel	Ion 2023
26	Stad Ddiwydiannol Cydweli	CSC (Stadau)	Steve Morgan	Cynnal archwiliad CCTV systemau draenio'r ystad ddiwydiannol a gweithredu ar unrhyw ddiffygion ar sail hynny.	Uchel	Hyd 22
27	Stad Ddiwydiannol Cydweli	CSC (Stadau)	Steve Morgan	Defnyddio'r archwiliad CCTV i ddatblygu cynllun rheoli draeniau ar gyfer yr ystad, gan sicrhau bod pob tenant a busnes preifat yn gwybod am eu draeniau a'u cyfrifoldebau.	Uchel	Ion 2023
28	Strategol	CSC (ALIDA)	Ben Kathrens	Datblygu a chynnal sesiwn ymwybyddiaeth risg llifogydd gymunedol. Dylai sesiwn o'r fath geisio rhoi gwybod i drigolion lleol am eu risg llifogydd, beth allant ei wneud i reoli'r risg honno a pha rolau mae'r ARhRau perthnasol yn eu chwarae.	Canolig	Meh 2023




Atodiad B – Map Draeniau DCWW ar gyfer Parc Pendre.









Atodiad E – Map Draeniau DCWW ar gyfer Heol y Fferi.





Atodiad G – Map Draeniau DCWW ar gyfer Ger y Gwendraeth.



Whilst every reasonable effort has been taken to correctly record the pipe material of DCWW assets, there is a possibility that there may be other pipe materials (other than Admixed AC or Pitch Fibre PF). It is therefore advisable that the possible presence of AC or PF pipes be anticipated and considered as part of any risk assessment prior to excavation.

Dwr Cymru Cyfyngedig (the Company) gives this information as to the position of its underground apparatus by way of general guidance only and on the strict understanding that it is based on information provided by the responsible utility owners. No express warranty or indemnity is given, and the Company does not accept liability for any loss or damage, however caused, in consequence of reliance upon the information or other works made in the vicinity of the company's apparatus and any excavations made in the vicinity of the company's apparatus. The information which is provided is only for the purpose of the excavation and in accordance with the statutory requirements of sections 198 and 199 of the Water Industry Act 1991. Particular, but without prejudice to the generality of that foregoing, it should be noted that the records that are available to the company may not disclose the existence of a main sewer or disposal main laid before 1 September 1989, the date on which the provisions of section 199 of the Water Industry Act 1991 came into force. It must be understood that the furnishing of this information is entirely without prejudice to the provisions of the New Roads and Street Works Act 1991 and the company's right to be compensated for any damage to its apparatus.

Scale: **1:1753**
08/06/2022

Appendix G – DCWW drainage map for Ger y Gwendraeth

EXACT LOCATION OF ALL APPARATUS TO BE DETERMINED ON SITE

Reproduced from the Ordnance Survey's *City of Cardiff* map with the permission of Her Majesty's Stationary Office. Crown Copyright. Licence No: WJ298985

LEGEND

Dwr Cymru Welsh Water

Atodiad B – Cofnodion Cynnal a Chadw Ffosdyllau Priffyrdd ar gyfer Cydweli (2015-2021).



Gully Cleansing -
Kidwelly area.PDF

